Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

# Pecyn Cymorth GDPR



Dim ond y derbynnydd ddylai ddefnyddio’r canllaw hwn ac ni ddylid ei drosglwyddo i drydydd parti heb ein caniatâd.

# Cydymffurfiaeth GDPR y DU:

rhestr wirio ar gyfer mudiadau'r trydydd sector

# Cydymffurfiaeth GDPR y DU: rhestr wirio ar gyfer mudiadau'r trydydd sector

| Maes gweithgaredd GDPR y DU | Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU | Camau Gweithredu | Statws |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu | Un o egwyddorion sylfaenol GDPR y DU yw sicrhau bod mudiadau'n gosod llywodraethu data wrth wraidd yr hyn a wnânt. O ganlyniad, mae GDPR y DU yn cyflwyno nifer o ofynion i sicrhau bod cwmnïau yn rhoi ffocws sylweddol ar gydymffurfiaeth. | • Dogfennu model llywodraethu preifatrwydd, er enghraifft, gyda rolau a chyfrifoldebau clir a llinellau adrodd i wreiddio cydymffurfiaeth preifatrwydd yn y mudiad, a mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle gall fod amcanion mewnol sy'n gwrthdaro.<br>• Penodi swyddog diogelu data statudol (https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/accountability-and-governance/guide-to-accountability-and-governance/data-protection-officers/) (SDD) (os oes angen neu os yw'n briodol) neu berson arall â chyfrifoldeb am reoli cydymffurfiaeth diogelu data.<br>• Adolygu cwmpas yr yswiriant ac ystyried a oes angen ei ddiweddaru yng ngoleuni'r dirwyon a'r cosbau uwch o dan GDPR y DU.<br>• Gweithredu polisi diogelu data, sy'n dwyn ynghyd yr holl bolisïau cysylltiedig sylfaenol gan gynnwys prosesau ar gyfer preifatrwydd drwy ddyluniad a chreu a chynnal cofnod o weithgareddau prosesu.<br>• Integreiddio cydymffurfiaeth preifatrwydd i'ch fframwaith archwilio presennol. | |
| Hyfforddiant | Yn y mudiad, mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o faterion preifatrwydd ac ymgorffori cydymffurfiaeth preifatrwydd fel bod y mudiad yn rhagweithiol ac nid yn adweithiol. | • Datblygu a chyflwyno hyfforddiant ar draws yr holl bersonél i sicrhau dealltwriaeth o egwyddorion, cyfrifoldebau a risgiau diogelu data. Sylwch – efallai y bydd angen hyfforddiant arbenigol ar staff sy'n ymwneud â gweithgareddau fel marchnata, diogelwch cyfrifiaduron neu reoli data i'w haddysgu am y gofynion diogelu data ar gyfer eu maes gwaith penodol.<br>• Byddai enghreifftiau o hyfforddiant a chanllawiau i staff yn cynnwys sicrhau bod staff yn deall, ymhlith pethau eraill:<br><br>o Dyletswyddau'r mudiad o dan GDPR y DU a'r cyfyngiadau ar y defnydd o ddata personol.<br>o Sut i gadw data personol yn ddiogel.<br>o Y broses gywir ar gyfer dileu data a allai gynnwys data personol.<br>o Sut i gadw copïau wrth gefn o wybodaeth.<br>o Bod yn ofalus wrth agor e-byst ac atodiadau.<br>o Atal ymosodiadau seiber.<br>o Cydymffurfio â cheisiadau gwrthrych data.<br><br>• Cofnodi presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi. | |

| Maes gweithgaredd GDPR y DU | Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU | Camau Gweithredu | Statws |
|---|---|---|---|
| Atebolrwydd | Un o'r llinynnau sy'n rhedeg drwy GDPR y DU yw'r gofyniad i fudiadau feddu ar ddogfennaeth i allu dangos sut maent yn cydymffurfio â GDPR y DU. | • Adolygu eich seiliau presennol dros brosesu cyfreithlon a chadarnhau eu bod yn dal yn ddigonol o dan GDPR y DU a sicrhau bod y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yn cael ei hesbonio yn eich cofnodion prosesu (gweler isod).<br>• Ystyried a yw eich mudiad yn prosesu unrhyw gategorïau arbennig o ddata personol neu ddata euogfarnau troseddol a sicrhau bod y gofynion ar gyfer prosesu data o'r fath yn cael eu bodloni. | |
| Cydsyniad | Mae GDPR y DU yn gosod gofynion yn ymwneud â chydsyniad dilys: rhaid i gydsyniad fod yn rhydd, yn benodol, yn wybodus ac yn ddiamwys. Rhaid cael optio i mewn cadarnhaol (ni ellir pennu cydsyniad yn sgil distawrwydd), rhaid i gydsyniad fod ar wahân i delerau ac amodau eraill a rhaid bod opsiynau syml ar gael i dynnu cydsyniad yn ôl.<br><br>Ystyriwch a yw'r gofynion penodol sy'n ymwneud â chydsyniad gan blant yn berthnasol i'ch mudiad chi (gweler "Plant"). | • Pan ddibynnir ar gydsyniad fel y sail ar gyfer prosesu data personol, dylid adolygu cydsyniadau cyfredol i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion GDPR y DU, ac os nad ydynt, dylid gweithredu proses i geisio cydsyniad newydd.<br><br>• Sicrhau y gall systemau gofnodi cydsyniad fel y gall y mudiad ddangos ei fod wedi cael cydsyniad. Cadwch gofnod o'r canlynol:<br><br>o Pwy a gydsyniodd: enw unigolyn neu enw defnyddiwr.<br>o Pryd y cafwyd cydsyniad: dyddiad a stamp amser.<br>o Sut y cafwyd cydsyniad: copi o'r datganiad preifatrwydd wedi'i lofnodi neu, ar gyfer cydsyniad ar lafar, nodyn o'r sgwrs. Ar gyfer ceisiadau ar-lein, dylid cadw'r wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â stamp amser i'w chysylltu'n ôl â'r fersiwn gywir o'r ffurflen cipio data.<br>o Yr hyn y cydsyniwyd iddo: manylion am yr hyn yn union y cydsyniwyd iddo, ar lefel ronynnog.<br>o Gwybodaeth a ddarperir i'r unigolyn: copi o'r polisi neu'r hysbysiad preifatrwydd a ddarparwyd i'r unigolyn sy'n bodloni gofynion hysbysu amrywiol GDPR y DU.<br><br>• Sicrhau y gall systemau ddarparu ar gyfer tynnu cydsyniad yn ôl a chadw cofnodion cywir o ddata mewn perthynas â thynnu cydsyniad yn ôl a bod y gweithgareddau wedi dod i ben o ganlyniad i dynnu cydsyniad yn ôl. Sylwch – efallai y bydd modd cadw data a'i brosesu at ddiben gwahanol o dan sail gyfreithlon arall, ond dylai'r unigolyn fod wedi cael gwybod am y posibilrwydd o ailddefnyddio ei ddata ar adeg casglu'r data. | |
| Buddiannau Dilys | "Buddiannau dilys" yw un o'r seiliau cyfreithlon y gallwch ddibynnu arni i brosesu data personol. Os ydych yn dibynnu arni, rhaid i chi fod yn glir ynghylch y buddiannau dilys a sicrhau nad yw hawliau preifatrwydd gwrthrych y data yn drech na nhw. | • Nodi pan fyddwch yn dibynnu ar fuddiannau dilys i brosesu data a chynnal asesiad buddiannau dilys i sefydlu a yw'r prosesu'n gyfreithlon.<br>• Sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd yn esbonio'r dibenion dilys ac yn cynnwys yr hawl i wrthwynebu mewn man amlwg. | |

| Maes gweithgaredd GDPR y DU | Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU | Camau Gweithredu | Statws |
|---|---|---|---|
| Hysbysiadau Preifatrwydd | Mae mwy o bwyslais ar dryloywder yn GDPR y DU. Rhaid i hysbysiadau fod yn glir, yn gryno ac yn llawn gwybodaeth. Rhaid i wrthrychau data gael eu hysbysu'n ddigonol am yr holl weithgareddau prosesu data a throsglwyddiadau data a rhaid darparu'r wybodaeth a nodir yn Erthyglau 13 i 14 o GDPR y DU. Mae hyn yn cynnwys y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol. | • Adolygu a diweddaru hysbysiadau preifatrwydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR y DU. Ystyried mabwysiadu hysbysiad preifatrwydd cynhwysfawr gyda hysbysiadau preifatrwydd penodol byrrach ar ffurflenni perthnasol ac ar-lein yn ôl yr angen. | |
| Plant | Mae GDPR y DU yn gofyn am gydsyniad rhieni ar gyfer rhai mathau o brosesu data personol plant, ond mae'n arfer gorau gwneud hyn ar gyfer pob math o brosesu data. Mae'r DU wedi pennu mai 13 oed yw'r oedran perthnasol y gall plentyn roi ei gydsyniad ei hun. | • Os bydd data sy'n ymwneud â phlentyn yn cael ei brosesu, sicrhewch fod systemau gwirio oedran ar waith, bod hysbysiadau a gaiff eu cyfeirio at y plentyn hwnnw yn "gyfeillgar i blant" ac, os dibynnir ar gydsyniad, eich bod wedi rhoi mecanwaith ar waith i geisio cydsyniad rhiant.<br>• Ystyriwch fesurau diogelu eraill, er enghraifft, gweithredu gât oedran sef y term a ddefnyddir ar gyfer ffyrdd awtomataidd o alluogi mynediad i systemau ar-lein i bobl dros oedran penodol yn unig. | |
| Adnoddau Dynol | Rhaid hysbysu gweithwyr yn ddigonol am yr holl weithgareddau prosesu data a throsglwyddiadau data. Mae'n amhriodol dibynnu ar gydsyniad i brosesu data gweithwyr | • Adolygu a diweddaru hysbysiadau gweithwyr ac ymgeiswyr i gydymffurfio â GDPR y DU.<br>• Nodi sail gyfreithlon prosesu data gweithwyr.<br>• Diweddaru contractau cyflogaeth i ddileu cydsyniad gweithwyr ar gyfer prosesu data personol (os yw'n berthnasol). | |

| Maes gweithgaredd GDPR y DU | Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU | Camau Gweithredu | Statws |
|---|---|---|---|
| Hawliau a gweithdrefnau gwrthrych y data | Mae GDPR y DU yn rhoi'r hawl i wrthrychau'r data:<br>• Dderbyn gwybodaeth benodol am weithgareddau casglu a phrosesu data personol y rheolydd.<br>• Cael mynediad at eu data personol.<br>• Cywiro eu data personol.<br>• Dileu data personol, sef yr hawl i gael eich anghofio.<br>• Cyfyngu ar brosesu data personol.<br>• Derbyn copi o ddata personol penodol neu drosglwyddo data personol i reolydd arall, sef hawl hygludedd data.<br>• Gwrthwynebu prosesu data personol.<br>• Peidio â bod yn destun proses gwneud penderfyniadau awtomataidd o dan rai amgylchiadau.<br><br>Derbyn hysbysiadau o dorri diogelwch. | • Diweddaru polisi preifatrwydd data a phrosesau mewnol ar gyfer ymdrin â cheisiadau.<br>• Sicrhau bod prosesau technegol a gweithredol ar waith i sicrhau y gellir bodloni hawliau gwrthrychau'r data, er enghraifft, yr hawl i gael eich anghofio, hygludedd data, yr hawl i wrthwynebu a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth.<br>• Sicrhau bod aelodau staff yn gallu adnabod hawliau ceisiadau gwrthrychau'r data ac yna brosesu ceisiadau o'r fath yn effeithlon, o ystyried yr amserlen o fis yn y ddeddfwriaeth ar gyfer ymateb i geisiadau o'r fath. | |
| Cofnodion prosesu | Mae GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau gadw cofnod manwl o'r holl weithgareddau prosesu, gan gynnwys dibenion prosesu, disgrifiad o gategorïau data, mesurau diogelwch a map llif data cynhwysfawr. Bydd angen cynnwys nifer o randdeiliaid wrth greu a chynnal y cofnod data hwn. | • Nodi'r holl ddata a broseswyd mewn cofnod manwl o brosesu. Er enghraifft, dylid dogfennu pa ddata personol a gedwir gan eich mudiad, o ble y daeth a gyda phwy y caiff ei rannu, y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu a'r mesurau diogelwch sydd ar waith (neu Asesiadau Effaith Diogelu Data).<br>• Gweithredu a chynnal prosesau ar gyfer diweddaru a chynnal cofnodion prosesu. | |
| Trosglwyddiadau data y tu allan i'r DU | Dim ond os yw amodau penodol yn berthnasol mae GDPR y DU yn caniatáu allforio data personol y tu allan i'r DU. Mae'r cosbau am dorri'r cyfyngiadau hyn yn amrywio o ddirwyon sylweddol i rwystro trosglwyddo'r data ei hun.<br><br>Y rheol gyffredinol yw na chaniateir trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU heb unrhyw fesurau diogelu pellach oni bai y bernir bod awdurdodaeth y gyrchfan yn cynnig lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer y data. Yn absenoldeb rheoliadau digonolrwydd, gall mudiad barhau i wneud trosglwyddiad yn amodol ar fesurau diogelu priodol, gan gynnwys:<br><br>• Rheolau corfforaethol rhwymol.<br>• Cymalau cytundebol safonol a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br>• Cytundeb Trosglwyddo Data Rhyngwladol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei hun.<br>• Cod ymddygiad neu fecanwaith ardystio a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. | • Nodi a ydych yn defnyddio unrhyw systemau a gynhelir y tu allan i'r DU.<br>• Nodi a ydych yn trosglwyddo data y tu allan i'r DU.<br>• Nodi ar ba sail yr ydych yn gwneud hyn i sicrhau bod y trosglwyddiad yn gyfreithlon.<br>• Sicrhau bod yr uchod wedi'i gynnwys yn eich hysbysiad preifatrwydd. | |

| **Maes gweithgaredd GDPR y DU** | **Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU** | **Camau Gweithredu** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Diogelwch | Rhaid i reolwyr data sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys amddiffyniad yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, difrod neu ddifrod damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol. | Sicrhau bod diogelwch priodol wedi'i roi ar waith, gan gynnwys copïau wrth gefn, amgryptio a phrofion rheolaidd i sicrhau diogelwch technegol (gweler rhestr wirio diogelwch gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - https://ico.org.uk/for-organisations/advice-for-small-organisations/getting-started-with-gdpr/data-protection-self-assessment-medium-businesses/ | |
| Gweithdrefnau tor data | Mae GDPR y DU yn nodi ei bod yn orfodol adrodd am achosion o dorri rheolau data personol sy'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion. Mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau weithredu'n gyflym, lliniaru colledion a, lle bodlonir trothwyon hysbysu gorfodol, hysbysu'r rheolyddion (o fewn 72 awr) a gwrthrych y data yr effeithir arnynt (os yw rhinweddau'r achos yn berthnasol, heb oedi gormodol). | • Adolygu a diweddaru (neu ddatblygu lle nad yw'n bodoli) cynllun ymateb i dor data.<br>• Adolygu cwmpas yswiriant ar gyfer achosion o dor data ac ystyried a oes angen ei ddiweddaru yng ngoleuni'r dirwyon a'r cosbau uwch o dan GDPR y DU.<br>• Adolygu darpariaethau mewn cytundebau sy'n delio â thoriadau a achosir gan ddarparwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill.<br>• Ystyried ymlaen llaw pa rwymedigaethau eraill a allai fod yn ddyledus, gan gynnwys i reoleiddwyr eraill, os bydd tor data a bod y sbardunau ar gyfer hysbysu yn cael eu rhoi ar waith yng nghyd-destun gweithrediadau busnes. | |
| Rhannu Data | Mae GDPR y DU yn newid y drefn atebolrwydd ar gyfer proseswyr data, gan eu gwneud yn uniongyrchol atebol am gydymffurfio. Mae hefyd yn cynyddu'r rheolaethau ar benodi prosesydd data.<br><br>Mae'n hanfodol nodi'r holl fudiadau yr ydych yn rhannu data personol â nhw a gweithio allan sail y berthynas ac a oes gennych berthynas rheolydd / prosesydd neu berthynas rheolydd ar y cyd. | • Dogfennu'n ofalus y camau yr ydych wedi'u cymryd wrth benodi proseswyr data i sicrhau y byddant yn cadw data'n ddiogel.<br>• Ymrwymo i gytundebau rhannu data wedi'u diweddaru gyda mudiadau partner.<br>• Ymrwymo i gytundebau prosesu data sy'n cydymffurfio â GDPR y DU gyda'r holl broseswyr data gan gynnwys ystyried a ydych yn dymuno gosod unrhyw fesurau diogelwch penodol ar y proseswyr data.<br>• Sefydlu protocolau diogelwch ar gyfer trosglwyddo data personol gyda thrydydd parti. | |

| Maes gweithgaredd GDPR y DU | Disgrifiad o ofyniad GDPR y DU | Camau Gweithredu | Statws |
|---|---|---|---|
| Cadw | Mae’n ofynnol i reolwyr data beidio â chadw data personol ar ffurf adnabyddadwy am fwy o amser nag sy’n angenrheidiol at y dibenion y mae data personol yn cael ei brosesu ar eu cyfer. | • Sefydlu polisi cadw ar gyfer yr holl ddata personol sydd gan y mudiad.<br>• Dylid cyfeirio at hyn yn eich hysbysiad preifatrwydd. | |
| Preifatrwydd drwy ddyluniad a rhagosodiad | Yn unol ag amcan GDPR y DU i roi blaenoriaeth i ystyriaethau preifatrwydd wrth i fudiadau wneud penderfyniadau, mae GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ofynion diogelu data gael eu hystyried pan fydd technolegau newydd yn cael eu dylunio neu eu cyflwyno neu pan fydd prosiectau newydd sy’n defnyddio data yn cael eu hystyried.<br><br>Dylid defnyddio asesiadau effaith diogelu data i sicrhau cydymffurfiaeth beth bynnag, ond bydd hyn yn orfodol ar gyfer prosiectau lle mae prosesu data yn debygol o arwain at risg uchel i unigolion.<br><br>Rhaid i asesiad effaith diogelu data gynnwys:<br><br>• Disgrifiad systematig o'r gweithrediadau prosesu a ragwelir a dibenion y prosesu, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y budd dilys y mae'r rheolydd yn mynd ar ei drywydd.<br>• Asesiad o angenrheidrwydd a chymesuredd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â'r dibenion.<br>• Asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid gwrthrychau’r data.<br>• Y mesurau a ragwelir i fynd i’r afael â’r risgiau, gan gynnwys mesurau diogelu, mesurau diogelwch a mecanweithiau i sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu ac i ddangos cydymffurfiaeth â GDPR y DU gan ystyried hawliau a buddiannau dilys gwrthrych y data a phobl eraill dan sylw.<br><br>Pan fo asesiad effaith diogelu data yn nodi bod y prosesu yn golygu risg uchel yn absenoldeb mesurau a gymerwyd gan y rheolydd i liniaru'r risg, mae'n ofynnol i reolwyr ymgynghori â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth cyn dechrau prosesu. | • Sicrhau bod prosesau ar waith i ymgorffori preifatrwydd drwy ddyluniad mewn prosiectau (er enghraifft, bod mesurau technegol a sefydliadol ar waith i sicrhau bod data’n cael ei leihau, cyfyngu ar ddiben a diogelwch).<br>• Sefydlu protocol asesiad effaith diogelu data a chynnal asesiadau effaith diogelu data a chadw cofnodion o hynny.<br>• Ymgynghori â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo'n briodol. | |

# Y Seiliau Cyfreithlon ar gyfer Prosesu Data Personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU): Nodyn Canllaw

***Mae'r nodyn canllaw byr hwn i'ch helpu i nodi'r seiliau cyfreithlon perthnasol posibl ar gyfer eich Hysbysiad Preifatrwydd. Nid cyngor cyfreithiol mohono ac ni ellir dibynnu arno at y diben hwnnw. Dylai eich mudiad geisio cyngor cyfreithiol ar wahân ar gynnwys unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd cyn iddo gael ei gwblhau'n derfynol***

## Y Seiliau Cyfreithlon ar gyfer Prosesu Data Personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) - Nodyn Canllaw

Mae GDPR y DU yn gosod safonau uchel ar gyfer diogelu data personol ac yn gosod nifer o rwymedigaethau ar y rhai sy'n trin y data.

O dan GDPR y DU, rhaid i fudiadau fod â sail gyfreithlon ddilys er mwyn prosesu data personol. Mae chwe sail gyfreithlon ar gael ar gyfer prosesu data personol arferol o dan Erthygl 6 o GDPR y DU, sef:

1. Cydsyniad.
2. Angenrheidiol mewn perthynas â chontract.
3. Yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.
4. Er mwyn gwarchod buddiannau hanfodol.
5. Budd y cyhoedd neu awdurdod swyddogol.
6. Buddiannau Dilys.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynhyrchu teclyn canllaw rhyngweithiol ar seiliau cyfreithlon sydd â'r bwriad o helpu mudiadau i benderfynu ar y sail gyfreithlon y gallant ei defnyddio.

| Sail Gyfreithlon | Eglurhad |
|---|---|
| Mae Gwrthrych y Data wedi cydsynio i brosesu eu data personol at un neu fwy o ddibenion penodol | Mae cydsyniad yn un sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, ond mae dewisiadau eraill. Nid yw cydsyniad yn ei hanfod yn well nac yn bwysicach na'r dewisiadau amgen hyn ac mewn gwirionedd, efallai y bydd adegau pan nad yw'n briodol.<br><br>Mae cydsyniad yn briodol os gallwch chi gynnig dewis a rheolaeth wirioneddol i bobl dros sut rydych chi'n defnyddio eu data ac eisiau meithrin eu hymddiriedaeth a'u hymgysylltiad. Ond os na allwch gynnig dewis gwirioneddol, nid yw cydsyniad yn briodol. Pe baech yn dal i brosesu'r data personol heb gydsyniad, mae gofyn am gydsyniad yn gamarweiniol ac yn ei hanfod yn annheg. Mae'n cyflwyno dewis ffug i'r unigolyn a dim ond rhith o reolaeth. Rhaid i chi felly nodi'r sail gyfreithlon fwyaf priodol ar gyfer prosesu o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Dylai awdurdodau cyhoeddus, cyflogwyr a sefydliadau eraill sydd mewn sefyllfa o bŵer dros unigolion osgoi dibynnu ar gydsyniad oni bai eu bod yn hyderus y gallant ddangos ei fod yn cael ei roi'n rhydd.<br><br>Os ydych yn dibynnu ar gydsyniad, mae angen i chi ddogfennu'r cydsyniad. Rhaid rhoi cydsyniad mewn modd sy'n rhydd, yn benodol, yn wybodus ac yn ddiamwys. Rhaid cael optio i mewn cadarnhaol (ni ellir pennu cydsyniad yn sgil distawrwydd), rhaid i gydsyniad fod ar wahân i delerau ac amodau eraill a rhaid bod opsiynau syml ar gael i dynnu caniatâd yn ôl heb anfantais. |

| Sail Gyfreithlon | Eglurhad |
|---|---|
| | Rhaid i chi sicrhau cydsyniad ar wahân ar gyfer pob diben yr ydych yn prosesu data personol ar ei gyfer.<br><br>Mae cydsyniad ar hyn o bryd yn ofyniad hanfodol wrth anfon cyfathrebiadau marchnata digymell at unigolion drwy ddulliau electronig o dan reoliadau sydd â chysylltiad agos â GDPR y DU, sef Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig. Y safon ar gyfer cydsyniad yw safon GDPR y DU. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mabwysiadu diffiniad eang iawn o gyfathrebiadau marchnata, ac mae hyn yn debygol o gynnwys anfon cylchlythyrau at eich cefnogwyr yn ogystal â negeseuon yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiadau a gwneud ymholiadau codi arian. |
| Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer ymrwymo i gontract neu gyflawni contract gyda gwrthrych y data | Mae gennych sail gyfreithlon ar gyfer prosesu os yw'r canlynol yn berthnasol:<br><br>• Mae gan eich mudiad gontract gyda'r unigolyn ac mae angen i chi brosesu ei ddata personol i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y contract.<br><br>• Nid oes gan eich mudiad gontract gyda'r unigolyn eto, ond mae angen i chi brosesu ei ddata personol er mwyn ymrwymo i gontract.<br><br>Nid yw'r sail hon yn berthnasol os oes angen i chi brosesu manylion un person, ond mae'r contract gyda rhywun arall.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, nid oes rhaid i gontract fod yn ddogfen ffurfiol wedi'i llofnodi, na hyd yn oed wedi'i hysgrifennu, cyn belled â bod cytundeb sy'n bodloni gofynion cyfraith contract. Rhaid i'r prosesu fod yn angenrheidiol i gyflawni eich ochr chi o'r contract gyda'r person penodol.<br><br>Enghraifft gyffredin o ble mae hyn yn berthnasol yw yn achos gweithwyr cyflogedig neu bobl sy'n gwneud cais i weithio i chi. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyflogwr ddibynnu ar gyflawni contract lle mae prosesu data yn angenrheidiol ac y gellir ei gysylltu'n ôl â'r contract. Mae enghreifftiau lle byddai'r categori hwn yn briodol yng nghyd-destun cyflogaeth yn cynnwys darparu:<br><br>• Manylion cyfeiriad cartref ar gyfer cyfathrebiadau.<br>• Manylion banc i dalu cyflog o dan y contract.<br>• Perthynas agosaf ar gyfer yswiriant bywyd a buddion perthnasol eraill. |
| Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r prosesydd data yn ddarostyngedig iddi | Mae hyn yn berthnasol pan fydd rheidrwydd arnoch i brosesu'r data personol i gydymffurfio â'r gyfraith.<br><br>Gall hyn fod yn unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys cyfraith gyffredin. Rhaid mai eich pwrpas cyffredinol yw cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sydd â sail ddigon clir naill ai mewn cyfraith gyffredin neu statud.<br><br>Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys pan fo angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, eich rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn Elusennau ac i CThEF. |

| Sail Gyfreithlon | Eglurhad |
|---|---|
| Mae prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data | Bwriad buddiannau hanfodol yw cynnwys dim ond buddiannau sy'n hanfodol i fywyd rhywun. Felly, mae'r sail gyfreithlon hon yn gyfyngedig iawn ei chwmpas, ac yn gyffredinol mae'n berthnasol i faterion bywyd a marwolaeth yn unig.<br><br>Mae'r sail hon yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer gofal meddygol brys, pan fo angen prosesu data personol at ddibenion meddygol, ond nid yw'r unigolyn yn gallu rhoi cydsyniad i'r prosesu. Fodd bynnag, mae data sy'n ymwneud ag iechyd yn ddata personol categori arbennig ac yn ddarostyngedig i'r seiliau prosesu a nodir yn Erthygl 9 GDPR y DU. |
| Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cynnal tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdodiad swyddogol y rheolydd | Er mai dim ond i gyrff cyhoeddus y bydd y sail gyfreithlon hon fel arfer yn berthnasol, gall unrhyw fudiad sy'n cyflawni tasg er budd y cyhoedd ddibynnu arni. Fodd bynnag, rhaid i'r dasg gael ei gosod gan y gyfraith fel bod gorgyffwrdd rhwng hyn a'r sail rhwymedigaeth gyfreithiol. |
| Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolydd data, ac eithrio pan fo buddiannau hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol (yn enwedig pan fo gwrthrych y data yn blentyn) yn drech na'r buddiannau dilys hynny. | "Buddiannau dilys" yw'r sail gyfreithlon fwyaf hyblyg ar gyfer prosesu, ond ni allwch gymryd yn ganiataol mai dyma fydd y mwyaf priodol bob amser.<br><br>Mae'n debygol o fod fwyaf priodol pan fydd eich mudiad yn defnyddio data pobl mewn ffyrdd y byddent yn eu disgwyl yn rhesymol ac sy'n cael yr effaith leiaf bosibl ar breifatrwydd, neu lle mae cyfiawnhad cymhellol dros y prosesu.<br><br>Mae tair elfen i'r sail buddiannau dilys. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell eich bod yn meddwl am hyn fel prawf tair rhan.<br><br>Mae angen i chi:<br>• nodi buddiant dilys;<br>• dangos bod y prosesu yn angenrheidiol i'w gyflawni; a<br>• ei gydbwyso yn erbyn buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn.<br><br>Gall y buddiannau dilys fod yn fuddiannau i chi eich hun neu fuddiannau trydydd parti. Gallant gynnwys buddiannau masnachol, buddiannau unigol neu fuddion cymdeithasol ehangach.<br><br>Rhaid i'r prosesu fod yn angenrheidiol. Os gallwch yn rhesymol gyflawni'r un canlyniad mewn ffordd arall sy'n llai ymwthiol, ni fydd buddiannau dilys yn berthnasol.<br><br>Rhaid i chi gydbwyso eich buddiannau yn erbyn rhai'r unigolyn. Os na fyddent yn rhesymol ddisgwyl y prosesu, neu pe bai'n achosi niwed anghyfiawn, mae eu buddiannau yn debygol o fod yn drech na'ch buddiannau dilys.<br><br>Dylech gadw cofnod o'r asesiad buddiannau dilys a gynhelir gan eich mudiad.<br><br>Rhaid i chi gynnwys manylion eich buddiannau dilys yn eich hysbysiad preifatrwydd. Pan fo prosesu'n seiliedig ar y sail gyfreithlon hon, rhaid rhoi'r hawl i wrthrych y data wrthwynebu, a dylid tynnu sylw at hynny yn yr hysbysiad preifatrwydd. |

Nid oes unrhyw sail unigol yn ‘well’ nac yn bwysicach na’r lleill – bydd pa sail sydd fwyaf priodol i’w defnyddio yn dibynnu ar ddiben a pherthynas eich mudiad â’r unigolyn.

Mae’r rhan fwyaf o seiliau cyfreithlon yn mynnu bod prosesu yn ‘angenrheidiol’. Os gall eich mudiad gyflawni’r un diben yn rhesymol heb y prosesu, ni fydd gan eich sefydliad sail gyfreithlon. Rhaid i'ch mudiad bennu'r sail gyfreithlon cyn iddo ddechrau prosesu, a dylid dogfennu hyn. Dylech fod yn ofalus i'w gael yn iawn y tro cyntaf - ni ddylai eich mudiad newid i sail gyfreithiol wahanol yn ddiweddarach heb reswm da.

Dylai hysbysiad preifatrwydd eich mudiad gynnwys eich sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yn ogystal â dibenion y prosesu. Gall fod categorïau o ddata y gallai mwy nag un sail prosesu fod yn berthnasol iddynt. Pan fo data’n cael ei brosesu am fwy nag un rheswm, dylid rhestru’r holl seiliau fel ei bod yn dryloyw i weithiwr beth sy’n cael ei wneud gyda’u data.

Y fantais i chi o nodi mwy nag un sail yw, os bydd un yn methu, bod yna sail arall ar gyfer prosesu o hyd.

## Categorïau arbennig o ddata personol

Os yw eich mudiad yn prosesu data categori arbennig, bydd angen i chi nodi sail gyfreithlon o dan Erthygl 6 GDPR y DU a sail categori arbennig ar gyfer prosesu o dan Erthygl 9 o GDPR y DU. Mae deg sail ar gyfer prosesu data categori arbennig o dan Erthygl 9 o GDPR y DU:

1. **Cydsyniad penodol.** Pan fo gwrthrych y data wedi cydsynio’n benodol i brosesu eu data personol at un neu fwy o ddibenion penodol.

2. **Hawliau a rhwymedigaethau cyfraith cyflogaeth.** Pan fo'n hanfodol er mwyn cynnal hawliau a rhwymedigaethau o dan gyfraith cyflogaeth.

3. **Diogelu buddiannau hanfodol.** Pan fo angen diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data lle nad yw gwrthrych y data yn gallu rhoi cydsyniad yn gorfforol neu'n gyfreithiol.

4. **Sefydliadau, cymdeithasau neu gyrff dielw eraill.** Pan gaiff ei gyflawni gyda mesurau diogelu priodol yn ystod gweithgareddau dilys sefydliad, cymdeithas neu gorff dielw arall sydd â nod gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undeb llafur. Rhaid i’r prosesu ymwneud ag aelodau neu gyn-aelodau o’r corff hwnnw, neu bersonau sy’n dod i gysylltiad rheolaidd ag ef, mewn cysylltiad â’i ddibenion yn unig. Rhaid peidio â datgelu data personol i unrhyw un y tu allan i'r corff hwnnw heb ganiatâd gwrthrych y data.

5. **Wedi'i wneud yn gyhoeddus gan wrthrych y data.** Pan fo’n ymwneud â data personol sydd wedi’i wneud yn amlwg yn gyhoeddus gan wrthrych y data.

6. **Hawliadau cyfreithiol.** Pan fo'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol, neu pan fo’r llysoedd yn gweithredu yn unol â’u swyddogaeth farnwrol.

7. **Budd cyhoeddus sylweddol.** Pan fo angen prosesu am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

8. **Dibenion iechyd.** Pan fo angen prosesu at ddibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

9. **Iechyd y cyhoedd.** Pan fo angen prosesu er budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol.

10. **Archifo, ymchwil ac ystadegau.** Pan fo angen prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 89(1) (fel y'i hategir gan adran 19 o Ddeddf Diogelu Data 2018) sy'n seiliedig ar gyfraith ddomestig a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu'r hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data.

Mae pump o'r seiliau uchod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prosesu gael ei awdurdodi neu ei seilio yn y gyfraith (fel y nodir yn adran 10 ac adran 11 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018)) ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno.

## Data am euogfarnau troseddol a throseddau

Mae GDPR y DU yn darparu mesurau diogelu ychwanegol mewn cysylltiad â phrosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau neu ddata personol sy'n gysylltiedig â mesurau diogelwch cysylltiedig.

Rhaid i fudiadau fod â sail gyfreithlon o dan Erthygl 6 o GDPR y DU a naill ai awdurdod cyfreithiol o dan gyfraith ddomestig neu awdurdod swyddogol ar gyfer prosesu.

Os nad oes gennych awdurdod swyddogol ar gyfer y prosesu, rhaid iddo gael ei awdurdodi gan gyfraith ddomestig. Yn y DU, mae'r awdurdodiad cyfreithiol hwn wedi'i nodi yn yr amodau a restrir yn Atodlen 1 DPA 2018.

Mae Atodlen 1 yn nodi 28 o amodau posibl ar gyfer prosesu data troseddau.

Mae Atodlen 1 (ym mharagraffau 5 a 38 i 41) hefyd yn cynnwys gofynion ychwanegol i chi gadw dogfen bolisi briodol a chofnodion prosesu mewn perthynas â data troseddau. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i rai, ond nid pob un, o'r amodau.

Efallai y bydd angen asesiad effaith diogelu data ar gyfer unrhyw fath o brosesu sy'n debygol o fod yn risg uchel.

# Hysbysiad Preifatrwydd GDPR Enghreifftiol

# Hysbysiad Preifatrwydd GDPR Enghreifftiol

## Nodyn Canllaw

Mae'r nodyn canllaw hwn yn cyd-fynd â'r templed Hysbysiad Preifatrwydd GDPR Enghreifftiol ac mae wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth drafftio i'r rhai sy'n gweithredu'r polisi. Mae'n amlinellu'r prif ystyriaethau, arferion gorau a chyngor ymarferol i sicrhau bod y polisi'n cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn gyson. Nod yr offeryn hwn yw cefnogi drafftio polisi clir a chywir, gan helpu i gysoni ag amcanion a gofynion cyfreithiol y mudiad.

- **Dim ond y derbynnydd ddylai ddefnyddio'r canllaw hwn ac ni ddylid ei drosglwyddo i drydydd parti heb ein caniatâd.**

- **Defnyddio'r templed hwn – mae'r templed yn cynnwys cromfachau sgwâr ac uwcholeuo i ddangos y meysydd y bydd angen i chi nodi gwybodaeth ynddynt a/neu ystyried a yw'r opsiynau a ddangosir yn berthnasol i'ch mudiad. Ni ddylai eich adolygiad fod yn gyfyngedig i'r meysydd hyn, gan y gall fod meysydd yn y templed nad ydynt yn berthnasol i'ch mudiad ac fe ddylid eu dileu.**

- **Pan fyddwch wedi cwblhau eich hysbysiad, dylech gael gwared ar yr holl gromfachau sgwâr a'r uwcholeuo.**

- **Mae nodyn canllaw byr i'ch helpu i nodi'r seiliau cyfreithlon perthnasol posibl. Nid cyngor cyfreithiol mohono ac ni ellir dibynnu arno at y diben hwnnw. Dylai eich mudiad geisio cyngor cyfreithiol ar wahân ar gynnwys unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd cyn iddo gael ei gwblhau.**

| Cymal | Canllawiau |
|---|---|
| **Cyffredinol** | Mae hwn wedi'i ddrafftio fel polisi ar wahân i un a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n fewnol i hysbysu cyflogeion/gweithwyr am y defnydd o'u data personol gan fudiad eu cyflogwyr. |
| **Nodyn 1** | Os yw'n debygol y bydd data categori arbennig o'r fath yn cael ei gasglu, yna dylid llunio polisi preifatrwydd manylach sy'n nodi pryd y bydd hyn yn digwydd a'r seiliau cyfreithlon ychwanegol sy'n cyfiawnhau'r prosesu. |
| **Nodyn 2** | Mae tryloywder yn allweddol wrth ddelio â phlant, gan nad yw plant yn colli eu hawliau fel gwrthrychau data dim ond oherwydd bod deiliad cyfrifoldeb rhiant wedi rhoi cydsyniad. Am y rheswm hwn, dylai hysbysiadau preifatrwydd gael eu hysgrifennu mewn arddull gryno, glir a phlaen a chyn belled ag y bo modd, dylid eu cyfeirio'n uniongyrchol at y grŵp oedran perthnasol. Os yw'r gynulleidfa darged yn cwmpasu ystod oedran eang neu wedi'i anelu at rieni, yna dylid darparu fersiynau gwahanol o'r hysbysiad neu, os darperir un yn unig, mae angen i'r ystod oedran ieuengaf ei ddeall. |
| **Nodyn 3** | Dim ond os oes gan y sefydliad sail gyfreithiol glir ar gyfer y dasg, swyddogaeth neu bŵer sylfaenol y bydd hyn yn sail gyfreithiol berthnasol. |
| **Nodyn 4** | Mae'n debygol mai mewn amgylchiadau prin y dibynnir ar y sail gyfreithiol hon ond fe'i cynhwysir er cyflawnder. |

# Cyflwyniad

Rydym yn trin preifatrwydd a chyfrinachedd yn ddifrifol iawn. Rydym yn [disgrifiwch natur y mudiad h.y. elusen / menter gymdeithasol] sydd â pherthynas â chodwyr arian, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a defnyddwyr gwasanaeth felly rydym yn defnyddio data personol o ddydd i ddydd er mwyn cyflawni ein [cenhadaeth / gweledigaeth] i [disgrifio nodau'r mudiad yn gryno]. Mae ein defnydd o ddata personol yn ein galluogi i wneud gwell penderfyniadau, codi arian yn fwy effeithlon ac, yn y pen draw, yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth. Rydym wedi datblygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn er mwyn bod mor dryloyw â phosibl am y data personol a gasglwn ac a ddefnyddiwn.

Rydym yn cydymffurfio â phob agwedd ar fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r Deyrnas Unedig sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a deddfwriaeth y DU ei hun gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018.

Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn yn ofalus a chysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein harferion preifatrwydd.

## Pwy ydyn ni?

Yn y Polisi Preifatrwydd hwn, mae “ni” neu “ein” yn golygu [Enw’r mudiad] (elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (...............), cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr (....................) a’n cwmni grŵp [ ] Masnachu cyfyngedig (rhif cwmni yng Nghymru a Lloegr).

Ni yw'r rheolydd ac rydym yn gyfrifol am eich data personol.

Rydym wedi penodi [Swyddog Diogelu Data / Rheolwr Preifatrwydd Data] i sicrhau goruchwyliaeth briodol o’n gweithgareddau prosesu data ac sy’n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau mewn perthynas â’r hysbysiad preifatrwydd hwn. [ ] yw’r [SDD/Rheolwr Preifatrwydd Data], a gellir cysylltu â nhw dros y ffôn ar [xxx] neu drwy e-bost [xxx] a gall roi unrhyw eglurder y gallai fod ei angen arnoch ynghylch yr hysbysiad preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i arfer eich hawliau cyfreithiol.

## Beth mae'r Hysbysiad hwn yn ei Gwmpasu?

We ask that you read this privacy notice carefully as it contains important information about:

- sut rydym yn casglu eich data personol
- y mathau o ddata personol a gasglwn ac a ddefnyddiwn
- y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt i gasglu a defnyddio data personol
- pam rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol
- rhannu eich data personol
- pan rydym yn trosglwyddo data personol y tu allan i’r DU
- am ba mor hir rydym yn cadw data personol
- sut rydym yn sicrhau bod data personol yn ddiogel; ac
- eich hawliau preifatrwydd

Dylech sicrhau eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd cyffredinol hwn ochr yn ochr ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd penodol y gallwn ei roi i chi o bryd i’w gilydd, mewn perthynas â’ch gwybodaeth..

## Sut rydym yn casglu eich data personol

Rydym yn casglu data yn y ffyrdd canlynol:

- Gallwch roi eich data personol i ni er mwyn [ llenwi ffurflen gyswllt, cofrestru ar gyfer un o’n digwyddiadau, cofrestru ar gyfer cylchlythyr, gwneud cyfraniad, prynu ein cynnyrch, cofrestru fel gwirfoddolwr i ni, ymuno â’n rhwydwaith [ ], gwneud cais am gyllid, defnyddio ein gwasanaethau] neu gyfathrebu â ni fel arall.

- Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan, rydym yn casglu eich data personol gan ddefnyddio “cwcis” a dulliau a thechnolegau olrhain tebyg. [Ceir rhagor o fanylion am y cwcis a’r dulliau olrhain a ddefnyddiwn yn ein Polisi Cwcis.]

- Yn ogystal, yn unol ag arferion cyffredin yn ymwneud â gwefannau, byddwn yn derbyn gwybodaeth am y math o ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i gael mynediad i'n gwefan neu apiau a gall y gosodiadau ar y ddyfais honno roi gwybodaeth i ni am eich dyfais, gan gynnwys pa fath o ddyfais ydyw, pa ddyfais benodol sydd gennych, pa system weithredu rydych chi'n ei defnyddio, beth yw gosodiadau eich dyfais, a pham mae system wedi chwalu. Fel arfer bydd gan wneuthurwr eich dyfais neu ddarparwr eich system weithredu ragor o fanylion am ba wybodaeth y bydd eich dyfais yn ei darparu i ni.

Os ydych yn dymuno rhoi data personol i ni am berson arall, siaradwch â ni i sicrhau bod gennych hawl gyfreithiol i roi'r wybodaeth i ni ac i gael cyngor ar hysbysu'r person hwnnw.

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â ni gan drydydd partïon, er enghraifft:

- asiantaethau codi arian proffesiynol;
- trefnwyr digwyddiadau annibynnol, er enghraifft Marathon Llundain neu safleoedd codi arian fel Just Giving neu Virgin Money Giving;
- os ydych yn cofrestru fel gwirfoddolwr i ni drwy wefan gwirfoddoli allanol;
- os bydd [ ] yn rhannu eich gwybodaeth gyda ni

[Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn data amdanoch chi gan gyflenwyr sy'n gweithredu ar ein rhan sy'n darparu gwasanaethau technegol, talu neu ddosbarthu i ni, a chan bartneriaid busnes, rhwydweithiau hysbysebu a darparwyr chwilio/dadansoddeg a ddefnyddir ar ein gwefan.]

## Cyfryngau Cymdeithasol

Yn dibynnu ar eich gosodiadau neu'r polisïau preifatrwydd ar gyfer gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol a negeseuon fel Facebook, WhatsApp neu Twitter, efallai y byddwch yn rhoi caniatâd i ni gael mynediad at wybodaeth o'r gwasanaethau hyn, er enghraifft pan fyddwch yn ein tagio'n gyhoeddus mewn llun digwyddiad.

## Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus

Gallwn ategu gwybodaeth am ein cefnogwyr â gwybodaeth o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus fel gwefannau elusennau ac adolygiadau blynyddol, gwefannau corfforaethol, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus, y gofrestr etholiadol a Thŷ'r Cwmnïau er mwyn creu dealltwriaeth lawnach o'ch rheswm dros ein cefnogi. Am ragor o wybodaeth, gweler ein hadran "Adeiladu proffiliau cefnogwyr" isod.

## Y mathau o ddata personol a gasglwn ac a ddefnyddiwn

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod y person hwnnw ohoni.

Gall y data rydyn ni'n ei gasglu, ei ddefnyddio, ei storio a'i drosglwyddo gynnwys gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel a ganlyn:

- eich enw
- eich manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a/neu hunaniaeth cyfryngau cymdeithasol)
- eich dyddiad geni
- eich rhywedd
- manylion eich cerdyn banc neu gerdyn credyd pan fyddwch yn eu darparu i wneud taliad
- os ydych yn gwirfoddoli i ni neu'n gwneud cais am swydd gyda ni, y wybodaeth angenrheidiol i ni brosesu'r ceisiadau hyn ac asesu eich addasrwydd (a allai gynnwys pethau fel statws cyflogaeth, profiad blaenorol yn dibynnu ar y cyd-destun, yn ogystal ag unrhyw euogfarnau troseddol sydd heb ddarfod neu achosion llys sydd gennych ar y gweill)
- os ydych yn gwneud cais am gyllid, y wybodaeth angenrheidiol i brosesu eich cais, fel [rhowch fanylion]
- gwybodaeth am eich gweithgareddau ar ein gwefan(nau) ac am y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i gael mynediad at y rhain, er enghraifft eich cyfeiriad IP a'ch lleoliad daearyddol
- gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau a chynhyrchion rydych chi wedi dangos diddordeb ynddynt, gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch iechyd (er enghraifft, os ydych yn cymryd rhan mewn digwyddiad neu'n mynychu digwyddiad at ddibenion iechyd a diogelwch
- gwybodaeth y gallwch ddewis ei rhannu gyda ni am eich profiad o [rhowch fanylion] os ydych wedi gadael cymynrodd i ni, unrhyw wybodaeth ynghylch eich perthynas agosaf y gallech fod wedi'i rhoi i ni i weinyddu hyn
- gwybodaeth ynghylch a ydych yn drethdalwr i'n galluogi ni i hawlio Rhodd Cymorth
- gwybodaeth oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a chenedligrwydd ac ethnigrwydd at ddibenion monitro;
- data marchnata a chyfathrebu sy'n cynnwys eich dewisiadau o ran derbyn deunydd marchnata gennym ni a'n trydydd partïon a'ch dewisiadau cyfathrebu; ac
- unrhyw ddata personol arall rydych yn ei roi i ni.

Mae rhai mathau o ddata personol mewn categori arbennig o dan gyfreithiau diogelu data, gan eu bod yn cael eu hystyried yn fwy sensitif.  Ymhlith enghreifftiau o'r math hwn o ddata mae gwybodaeth am iechyd, hil, credoau crefyddol, safbwyntiau gwleidyddol, aelodaeth o undeb llafur, bywyd rhywiol neu rywioldeb a gwybodaeth enetig/biometrig.

Rydym ond yn casglu'r math hwn o wybodaeth amdanoch i'r graddau bod rheswm clir i ni wneud hynny neu pan fyddwch yn ei gwneud yn gyhoeddus neu'n ei rhoi'n wirfoddol i ni. Pan fo'n ymarferol i ni wneud hynny, byddwn yn egluro pam rydym yn casglu'r math hwn o wybodaeth ac at ba ddiben y'i defnyddir.[**GWELER NODYN CANLLAW (1). DYLID DILEU'R SYLW HWN AR ÔL EI ADOLYGU**]

Data Personol Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed [**GWELER NODYN CANLLAW (2.) DYLID DILEU'R SYLW HWN AR ÔL EI ADOLYGU**]

Rydym yn ofalus iawn pan fyddwn yn casglu data personol am blant dan 13 oed ac oedolion sy'n agored i niwed.

Pan fyddwn ni'n casglu data personol am blant o dan 13 oed, rydym yn darparu hysbysiad preifatrwydd i'w rhieni neu warcheidwaid i'w cymeradwyo, a phan fo angen eu cydsyniad.

Os oes gennych unrhyw bryderon, dylid eu codi gyda'n [SDD / Rheolwr Preifatrwydd Data].

**Y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt i gasglu a defnyddio data personol**
Rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithlon canlynol i brosesu eich data personol *dilëwch fel y bo'n briodol*: Pan fyddwn yn defnyddio data personol categori arbennig (gweler yr adran "Y mathau o ddata personol a gasglwn" uchod), mae arnom angen sail gyfreithiol ychwanegol i wneud hynny o dan gyfreithiau diogelu data, felly byddwn naill ai'n gwneud hynny ar sail eich cydsyniad penodol neu lwybr arall sydd ar gael i ni yn ôl y gyfraith ar gyfer defnyddio'r math hwn o wybodaeth (er enghraifft, os ydych wedi gwneud y wybodaeth yn amlwg yn gyhoeddus, mae angen i ni ei phrosesu at ddibenion cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu gyfraith amddiffyniad cymdeithasol, eich buddiannau hanfodol, neu, mewn rhai achosion, os yw er budd y cyhoedd i ni wneud hynny).

| | |
|---|---|
| Cyflawni contract | Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu a defnyddio eich data personol er mwyn cymryd camau i ymrwymo i gontract gyda chi neu i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan gontract gyda chi. |
| Rhwymedigaeth gyfreithiol | Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu a defnyddio eich data personol i gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol a gofynion rheoliadol. Byddwn yn nodi'r rhwymedigaeth gyfreithiol berthnasol pan fyddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol hon. |
| Buddiannau dilys | Mae'n bosibl y byddwn yn casglu ac yn defnyddio'ch data personol pan fo angen i gynnal ein busnes a dilyn ein buddiannau dilys. Dim ond pan fyddwn yn fodlon bod eich hawliau preifatrwydd wedi'u diogelu'n foddhaol y byddwn yn gwneud hyn. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi a'ch hawliau (cadarnhaol a negyddol) cyn i ni brosesu eich data personol ar gyfer ein buddiannau dilys. Nid ydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer gweithgareddau pan fydd yr effaith arnoch chi yn drech na'n buddiannau (oni bai ein bod wedi cael eich cydsyniad neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith). |
| Cydsyniad | Dim ond pan fyddwn wedi cael eich cytundeb gweithredol i ddefnyddio eich data personol at ddiben penodol y byddwn yn dibynnu ar gydsyniad. |
| Tasg gyhoeddus [**[GWELER NODYN CANLLAW (3.) DYLID DILEU'R SYLW HWN AR ÔL EI ADOLYGU**] | Er nad ydym yn gorff cyhoeddus, rydym yn casglu ac yn defnyddio rhywfaint o ddata personol pan fo angen i gyflawni tasgau sydd er budd y cyhoedd. |
| Buddiannau Hanfodol [**GWELER NODYN CANLLAW (4). DYLID DILEU'R SYLW HWN AR ÔL EI ADOLYGU**] | Dim ond mewn achosion prin y mae hyn yn berthnasol lle mae angen i ni brosesu data personol er mwyn diogelu bywyd rhywun. |

***DS Dylech ddarparu gwybodaeth fanwl am yr holl seiliau cyfreithlon penodol sy'n berthnasol i'ch gwaith prosesu data o ran data personol cyffredin a data personol categori arbennig yn y tabl isod. Mae nifer o ddarpariaethau penodol yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 sy'n galluogi prosesu data categori arbennig yn gyfreithlon.***

## Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol

Rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol at y dibenion canlynol, gan ddibynnu ar y seiliau cyfreithlon penodol a nodir yn y tabl isod *dilëwch neu ychwanegu ato fel y bo'n briodol*. Rydyn ni hefyd wedi nodi beth yw ein buddiannau dilys lle bo'n briodol.

| Pam | Seiliau Cyfreithlon |
|---|---|
| Darparu'r gwasanaethau, cynhyrchion neu wybodaeth y gofynnoch amdanynt. | Cydsyniad<br>Contract<br>Buddiannau dilys |
| Gweinyddu eich rhodd neu gefnogi eich gwaith codi arian, gan gynnwys prosesu Rhodd Cymorth. | Buddiannau dilys<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Cadw cofnod o'ch perthynas gyda ni. | Buddiannau dilys<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Cyflawni neu ymateb i unrhyw geisiadau, cwynion neu ymholiadau a wnewch i ni. | Buddiannau dilys<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Deall yn well sut y gallwn wella ein gwasanaethau, cynnyrch neu wybodaeth drwy gynnal dadansoddiadau ac ymchwil i'r farchnad. | Buddiannau dilys. |
| Rheoli ein digwyddiadau. | Contract<br>Buddiannau dilys<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Anfon gohebiaeth atoch a chyfathrebu gyda chi, gan gynnwys diweddaru eich manylion cyswllt (gweler "Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol" isod). | [Cydsyniad]<br>Buddiannau dilys |
| Cynnal dadansoddiad a phroffilio ein cefnogwyr gan ddefnyddio'r data personol sydd gennym eisoes. | Buddiannau dilys |

| Pam | Seiliau Cyfreithlon |
|---|---|
| Gweinyddu ein gwefannau a datrys problemau, dadansoddi data, ymchwilio, cynhyrchu ystadegau ac arolygon sy'n ymwneud â'n systemau technegol. | Buddiannau dilys |
| Cynhyrchu adroddiadau ar ein gwaith, gwasanaethau a digwyddiadau. | Buddiannau dilys<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Diogelu ein staff a'n gwirfoddolwyr. | Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Monitro defnydd o'r wefan i nodi lleoliad ymwelwyr, gochel rhag defnydd aflonyddgar, monitro traffig i'r wefan a/neu bersonoli'r wybodaeth a gyflwynir i chi. | Cydsyniad<br>Buddiannau dilys |
| Prosesu eich cais am swydd neu swydd wirfoddoli. | Contract<br>Buddiannau dilys |
| Archwilio a gweinyddu ein cyfrifon. | Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol i reoleiddwyr, y llywodraeth a/neu gyrff gorfodi'r gyfraith. | Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |
| Ymgymryd â gwiriadau cefndir gan gynnwys gwirio hunaniaeth a gwiriadau a gynhelir i atal gwyngalchu arian, rhesymau gwrthderfysgaeth, gwiriadau ariannol ac enw da. Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomataidd, ond rydym yn defnyddio asiantaethau cyfeirio credyd ac atal twyll a all wneud hynny. | Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |
| Rheoli a gweinyddu ein perthynas â chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i ni. | Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |
| Fel arall, cyflawni gweithrediadau ein mudiad o ddydd i ddydd yn effeithlon gan gynnwys rheoli ein sefyllfa ariannol, gallu, cynllunio, cyfathrebu, llywodraethu corfforaethol ac archwilio. | Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |
| Hyfforddi a datblygu ein staff a'n gwirfoddolwyr | Contract<br>Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |
| Atal ac ymateb i dwyll neu weithgareddau anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. | Rhwymedigaeth gyfreithiol |
| Sefydlu, arfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol neu at ddibenion achosion cyfreithiol y gallwn fod yn rhan ohonynt. | Rhwymedigaeth gyfreithiol<br>Buddiannau dilys |

## Anfon cyfathrebiadau marchnata

Mae ein cyfathrebiadau marchnata yn cynnwys gwybodaeth am ein gwaith, ymgyrchoedd a cheisiadau am roddion neu gymorth arall. [O bryd i'w gilydd gallwn gynnwys gwybodaeth gan fudiadau partner neu fudiadau sy'n ein cefnogi yn y cyfathrebiadau hyn.]

[Rydym yn gweithredu polisi cyfathrebu 'optio i mewn yn unig' [ar gyfer cyfathrebiadau electronig]. Ac eithrio fel y nodir isod, mae hyn yn golygu y byddwn ond yn anfon cyfathrebiadau marchnata electronig at y rhai sydd wedi datgan yn benodol eu bod yn hapus i ni wneud hynny.]

[Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni'n uniongyrchol, er enghraifft y cofnod o'ch rhoddion blaenorol i ni a/neu'ch perthynas â ni, eich lleoliad a'ch demograffeg, yn ogystal â'r math o weithgarwch y buoch yn ymwneud ag ef, er mwyn teilwra ein cyfathrebiadau ni â chi ynglŷn â gweithgareddau yn y dyfodol.]

## Digwyddiadau a chodi arian

Pan fyddwch wedi gofyn am fanylion un o'n digwyddiadau, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, syniadau ar gyfer codi arian a nodiadau atgoffa ar wybodaeth allweddol am y gweithgaredd.

Pan fyddwch wedi cofrestru ar gyfer digwyddiad gyda thrydydd parti (er enghraifft Marathon Llundain) ac wedi dweud wrth drefnydd y digwyddiad eich bod yn dymuno codi arian i ni, efallai y byddwn yn cysylltu â chi gyda gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer eich menter codi arian ar gyfer y digwyddiad hwnnw.

## Rheoli eich dewisiadau cyswllt

Rydym yn ei gwneud hi'n hawdd i chi ddweud wrthym sut rydych chi am i ni gyfathrebu, mewn ffordd sy'n addas i chi.

Mae gan ein ffurflenni gwestiynau clir ynghylch dewisiadau marchnata ac rydym yn cynnwys gwybodaeth am sut i optio allan pan fyddwn yn anfon deunydd marchnata atoch. Os nad ydych chi eisiau clywed gennym ni, mae hynny'n iawn, a gallwch chi newid eich dewisiadau unrhyw bryd. Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn darparu eich data neu'n cysylltu â ni [eglurwch sut er enghraifft] [drwy fewngofnodi i'r wefan a thicio neu ddad-dicio'r blychau perthnasol i addasu eich dewisiadau marchnata NEU drwy ddilyn y dolenni optio allan o fewn unrhyw gyfathrebiad marchnata a anfonir atoch neu drwy gysylltu â ni [DOLEN].]

Os ydych wedi penderfynu nad ydych am i ni gysylltu â chi at ddibenion marchnata, efallai ei bydd hi'n dal yn angenrheidiol i ni gysylltu â chi at ddibenion gweinyddol. Gall hyn gynnwys pan fyddwn yn prosesu rhodd a wnaethoch ac unrhyw Rodd Cymorth cysylltiedig, diolch i chi am gyfraniad neu gyfranogiad mewn digwyddiad, neu gadw mewn cysylltiad â chi am weithgareddau gwirfoddoli rydych yn eu gwneud i ni.

## Adeiladu proffiliau cefnogwyr

Dim ond diolch i haelioni ein cefnogwyr y mae ein gwaith yn bosibl – felly mae'n hanfodol bod ein hymdrechion codi arian mor effeithiol ag y gallant fod. Drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o'n cefnogwyr drwy ymchwilio iddynt gan ddefnyddio ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus, gallwn deilwra a thargedu ein digwyddiadau codi arian a'n cyfathrebiadau (gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli) at y rhai sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb ynddynt. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn fwy effeithlon a chost-effeithiol gyda'n hadnoddau, ac mae hefyd yn lleihau'r risg y bydd rhywun yn cael gwybodaeth a allai fod yn amherthnasol, yn ymwthiol neu hyd yn oed yn ofidus.

Ar ôl ystyried dewisiadau cyfathrebu cefnogwr, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanynt i ymchwilio i'w potensial i wneud rhoddion. Mae'n bosibl y byddwn yn casglu manylion ychwanegol yn ymwneud â'u cyflogaeth ac unrhyw weithgarwch dyngarol. Gallwn hefyd amcangyfrif eu gallu o ran rhoddion, yn seiliedig ar eu hasedau gweladwy, eu hanes o roi i elusennau a faint o gyswllt sydd rhyngddynt â ni.

Rydym yn defnyddio data sy'n bodoli yn ein cronfa ddata ni ac yn ei chyfuno â gwybodaeth o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus fel gwefannau elusennau ac adolygiadau blynyddol, gwefannau corfforaethol, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus, y gofrestr etholiadol a Thŷ'r Cwmnïau er mwyn creu dealltwriaeth lawnach o'r cefnogwr. Dim ond ffynonellau ag enw da sydd ar gael yn gyhoeddus yr ydym yn eu defnyddio. Rydym yn osgoi unrhyw ddata y credwn nad yw wedi'i sicrhau'n gyfreithlon neu'n foesegol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau mai chi sy'n rheoli eich data ac rydych yn rhydd ar unrhyw adeg i optio allan o'r gweithgaredd hwn drwy gymryd y camau canlynol [NODER].

## Rhannu eich data personol

Mae'n bosibl y bydd gan nifer o drydydd partïon fynediad at eich data personol neu efallai y byddwn yn ei rannu neu'n ei anfon atynt. Mae hyn yn cynnwys:

- partneriaid busnes, cyflenwyr ac is-gontractwyr a all brosesu gwybodaeth ar ein rhan;
- os ydych yn rhoddwr cymynroddion, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth â chyd-fuddiolwyr;
- asiantaethau marchnata a ddefnyddiwn
- darparwyr dadansoddeg a pheiriannau chwilio
- ein cynghorwyr proffesiynol
- darparwyr gwasanaethau TG.

Efallai y bydd gofyn i ni hefyd rannu data personol ag awdurdodau rheoleiddio, asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i'ch hysbysu cyn i ni wneud hyn, oni bai ein bod wedi ein cyfyngu'n gyfreithiol rhag gwneud hynny.

Nid ydym yn gwerthu, yn rhentu nac fel arall yn rhyddhau data personol yn fasnachol i unrhyw drydydd parti. Gofynnwn i bob trydydd parti barchu diogelwch eich data personol a’i drin yn unol â’r gyfraith. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaethau trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain ac rydym ond caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

Rydym yn cadw’r hawl i ddatgelu eich data personol i drydydd partïon:
- os byddwn yn gwerthu neu'n prynu unrhyw fusnes neu asedau, ac os felly gallwn ddatgelu eich data personol i ddarpar werthwr neu brynwr busnes neu asedau o'r fath; a/neu
- os caiff ein holl asedau i raddau helaeth eu caffael gan drydydd parti, gall data personol a gedwir gennym fod yn un o’r asedau a drosglwyddir.

## Trosglwyddiadau data y tu allan i'r DU
Nid ydym yn anfon data personol y tu allan i'r DU. Nid yw’r un o’r darparwyr gwasanaethau yr ydym yn eu defnyddio i’n helpu i redeg ein busnesau wedi’u lleoli y tu allan i’r DU.

[mae’n bwysig iawn ceisio cyngor cyfreithiol os nad yw hyn yn wir]

## Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol
Rydym yn gwerthfawrogi’n fawr os gallwch roi gwybod i ni os bydd eich manylion cyswllt yn newid, ond er mwyn sicrhau bod y data sydd gennym mor gyfredol a chywir â phosibl, mae’n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau allanol fel cronfa ddata newid cyfeiriad genedlaethol swyddfa’r post a/neu’r gofrestr etholiadol gyhoeddus i nodi pryd y credwn eich bod wedi newid cyfeiriad fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion a chadw mewn cysylltiad. Rydym ond yn defnyddio ffynonellau lle rydym yn hyderus eich bod wedi cael gwybod sut y gellir rhannu a defnyddio eich gwybodaeth.

Rydym yn gwneud hyn fel y gallwn barhau i gysylltu â chi os ydych chi wedi dewis derbyn negeseuon marchnata gennym ni a chysylltu â chi os bydd angen i ni eich gwneud yn ymwybodol o newidiadau i'n telerau neu eich cynorthwyo gyda phroblemau gyda rhoddion.

Mae’r gweithgaredd hwn hefyd yn ein hatal rhag dyblygu cofnodion a bod â chofnod o ddewisiadau sydd wedi dyddio, fel nad ydym yn cysylltu â chi pan fyddwch wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny.

## Am ba mor hir rydym yn cadw data personol
Ein polisi yw peidio â chadw data personol am gyfnod hwy nag sy’n rhesymol angenrheidiol i gyflawni’r dibenion y casglwyd y data ar eu cyfer. Mae’n bosibl y byddwn yn cadw’ch data personol am gyfnod hirach os bydd cwyn neu os ydyn ni’n credu’n rhesymol bod posibilrwydd o ymgyfreitha o safbwynt ein perthynas â chi.  Rydym wedi sefydlu llinellau amser cadw data ar gyfer yr holl ddata personol sydd gennym yn seiliedig

ar pam mae angen y wybodaeth arnom. Mae’r llinellau amser yn ystyried unrhyw rwymedigaethau statudol neu reoleiddiol sydd gennym i gadw’r wybodaeth, ein gallu i amddiffyn hawliadau cyfreithiol, ein buddiannau busnes dilys, arferion gorau a’n galluoedd technegol presennol. Rydym wedi datblygu Polisi Cadw Data sy'n cynnwys y wybodaeth hon. Rydym yn dileu neu’n dinistrio data personol yn ddiogel yn unol â’r Polisi Cadw Data. Mae copi o'r canllawiau cadw data hyn ar gael oddi wrth [NODER].

## Sut rydym yn sicrhau bod data personol yn ddiogel

Rydym yn hynod ymrwymedig i ddiogelwch gwybodaeth ac rydym yn cymryd camau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich data personol rhag mynediad heb awdurdod, colled, camddefnydd, llygredd neu rhag cael ei newid. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig a rheolaethol ar waith i ddiogelu'r wybodaeth a roddwch i ni gan gynnwys defnyddio amgryptio a ffugenwi.

Yn ogystal, rydyn ni’n cyfyngu ar fynediad at eich data personol i'r gweithwyr, yr asiantau, y contractwyr a'r trydydd partïon eraill hynny y mae angen y wybodaeth honno arnynt am resymau busnes. Byddant ond yn prosesu eich data personol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achos a amheuir o dor data personol, a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol sy'n ymwneud â thorri amodau lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

## Eich hawliau preifatrwydd

You have a number of rights in relation to your personal data which we have. Not all of the rights apply in all circumstances. If you wish to exercise any of the rights, please contact us in the ways detailed below:

- Mae gennych hawl mynediad at y data personol sydd gennym amdanoch (a elwir fel arfer yn “gais gwrthrych am wybodaeth”). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o’r data personol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn ei brosesu’n unol â'r gyfraith.

- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yr ydych yn credu sy’n anghywir neu’n anghyflawn.

- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu ar eich data personol pan fyddwn yn dibynnu ar fudd dilys (neu rai trydydd parti) fel y sail gyfreithlon i wneud hynny a’ch bod yn meddwl bod eich hawliau a’ch buddiannau yn drech na’n rhai ni a’ch bod yn dymuno i ni roi’r gorau iddi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau cyfreithlon neu resymau dilys eraill pam mae angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth sy’n drech na’ch hawl i wrthwynebu. Os yw hyn yn wir, byddwn yn ystyried eich cais ac yn esbonio pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu ar y defnydd o’ch data personol tra byddwn yn ystyried eich cais.

- Mae gennych yr hawl absoliwt i wrthwynebu os ydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Os nad ydych eisiau derbyn cyfathrebiadau gennym mwyach, cysylltwch â ni. Byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cyfathrebiadau atoch, ond yn parhau i gadw cofnod ohonoch a'ch cais i beidio â chlywed gennym. Pe baem yn dileu eich holl wybodaeth o'n cronfeydd data marchnata uniongyrchol, ni fyddai gennym unrhyw gofnod o'r ffaith eich bod wedi gofyn i ni beidio â chyfathrebu â chi ac mae'n bosibl y gallech ddechrau derbyn cyfathrebiadau gennym rywbryd yn y dyfodol, os byddwn yn cael eich manylion o ffynhonnell wahanol.

- Mae gennych yr hawl i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol yn un o'r sefyllfaoedd canlynol:
  - Os ydych am i ni sefydlu cywirdeb y data;
  - Pan fo'n defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nad ydych am i ni ei ddileu;
  - Pan fo angen i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes ei angen arnom mwyach er mwyn i chi allu sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu
  - Rydych wedi gwrthwynebu ein defnydd o'ch data ond mae angen i ni wirio a oes gennym seiliau cyfreithlon sy'n drech na'ch hawliau i'w ddefnyddio.

- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth. Gelwir hyn hefyd yn hawl i gael eich anghofio neu i ddileu data. Ni fyddwn yn cytuno i wneud hyn bob amser gan y gall fod rhesymau cyfreithlon neu resymau dilys eraill pam mae angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os yw hyn yn wir, byddwn yn ystyried eich cais ac yn esbonio pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu ar y defnydd o'ch data personol tra byddwn yn ystyried eich cais.

- Pan fo'r gwaith o brosesu eich data personol yn seiliedig ar eich cydsyniad, mae gennych hawl i dynnu'r cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. Cysylltwch â ni os hoffech wneud hyn. Nodwch, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a wneir cyn i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl. Os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl, efallai na fyddwn yn gallu darparu cynhyrchion neu wasanaethau penodol i chi. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw hyn yn berthnasol ar yr adeg y byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl.

Mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael y data personol yr ydych wedi'i roi i ni mewn fformat sy'n hawdd ei ailddefnyddio ac i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol hwn yn yr un fformat i sefydliadau eraill. Sylwch fod yr hawl hon ond yn berthnasol i wybodaeth awtomataidd y gwnaethoch chi roi cydsyniad i ni ei defnyddio yn y lle cyntaf neu lle defnyddiwyd y wybodaeth i gyflawni contract gyda chi. Cysylltwch â ni i weld a yw'r hawl hon yn berthnasol i chi. Os ydych am arfer unrhyw rai o'r hawliau a nodir uchod, [cysylltwch â NODWCH].

## Sut i Gwyno

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer materion diogelu data (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio â'ch pryderon cyn i chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly gofynnwn i chi gysylltu â ni yn y lle cyntaf. Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

[ychwanegwch y manylion]

## Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar [ ] 2025. Rydym yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a gallem ei newid o bryd i'w gilydd drwy ddiweddaru'r dudalen hon i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ein harferion preifatrwydd. Rydym yn eich annog chi i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am unrhyw newidiadau yn rheolaidd.

# Polisi GDPR

Polisi enghreifftiol ar ddefnyddio eich dyfeisiau eich hunan

# Polisi GDPR

“Dim ond y derbynnydd ddylai ddefnyddio’r canllaw hwn ac ni ddylid ei drosglwyddo i drydydd parti heb ein caniatâd”.

Polisi enghreifftiol ar ddefnyddio eich dyfeisiau eich hunain ar gyfer Ymddiriedolwyr a Gwirfoddolwyr

- **Defnyddio’r templed hwn – mae'r templed yn cynnwys cromfachau sgwâr ac uwcholeuo i ddangos y meysydd y bydd angen i chi nodi gwybodaeth ynddynt a/neu ystyried a yw'r opsiynau a ddangosir yn berthnasol i'ch mudiad.**

- **Ni ddylai eich adolygiad fod yn gyfyngedig i’r meysydd hyn, gan y gall fod meysydd yn y templed nad ydynt yn berthnasol i’ch mudiad ac fe ddylid eu dileu.***

- **Pan fyddwch wedi cwblhau eich polisi, dylech gael gwared ar yr holl gromfachau sgwâr a’r uwcholeuo.**

- **Os nad ydych yn siŵr a yw gwybodaeth benodol yn berthnasol i’ch mudiad, dylech geisio cyngor cyfreithiol ar wahân ar gynnwys y polisi hwn cyn ei gwblhau’n derfynol.**

## 1. Y polisi hwn

**1.1** Mae [Enw'r Mudiad] (y “Mudiad,” “ni” neu “ein”) yn cydnabod bod ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr (y cyfeirir atynt fel chi) yn rhan bwysig iawn o'n gweithlu. Yn anffodus, ni allwn fforddio darparu ffonau symudol, cyfrifiaduron llechen neu liniaduron i'n holl ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr ac felly rydym wedi datblygu'r polisi hwn i sefydlu protocolau priodol i chi ddefnyddio'ch dyfeisiau eich hun i wneud gwaith i'r Mudiad.

**1.2** Mae caniatáu i chi ddefnyddio eich dyfeisiau symudol personol at ddibenion y Mudiad yn arwain at fwy o risg o ran diogelwch ein hadnoddau TG a systemau cyfathrebu, diogelu gwybodaeth gyfrinachol a pherchnogol, ac o ran enw da, a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol fel gofynion diogelu data.

**1.2.1** Pwrpas y polisi hwn felly yw nodi ein rheolau ar ddefnyddio dyfeisiau personol er mwyn:

**1.2.2** diogelu ein systemau a'n data;

**1.2.3** atal ein data rhag cael ei golli, ei ddatgelu neu ei newid yn fwriadol neu'n anfwriadol;

**1.2.4** nodi o dan ba amgylchiadau y gallwn fonitro eich defnydd o’n systemau, cyrchu’ch dyfais ac adalw, dileu neu ddinistrio data arni a’r camau y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas ag achosion o dorri’r polisi hwn.

**1.3** Gall unrhyw un sy’n dod o dan y polisi hwn ddefnyddio dyfais symudol bersonol gymeradwy at ddibenion y Mudiad, ar yr amod eu bod yn llofnodi’r datganiad ar ddiwedd y polisi hwn ac yn cadw at ei delerau.

**1.4** Mae’r polisi hwn yn ategu ein polisïau a’n gweithdrefnau eraill sydd mewn grym o bryd i’w gilydd, a dylid ei ddarllen ar y cyd â nhw, gan gynnwys heb gyfyngiad ein [polisi systemau TG a chyfathrebu NEU bolisi defnydd derbyniol TG], [Safon preifatrwydd NEU bolisi diogelu data], [Polisi cadw data], a pholisïau eraill sy’n ymwneud â TG, sydd ar gael o [NODWCH ENW].

## 2. Pwy sy'n gyfrifol am y polisi hwn?

**2.1** [Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) NEU [PWYLLGOR] NEU [SWYDD]] sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad effeithiol y polisi hwn. [Y Bwrdd NEU [PWYLLGOR] NEU [SWYDD]] sydd â chyfrifoldeb wedi’i ddirprwyo dros oruchwylio ei weithrediad i [SWYDD]. Dylid cyfeirio cwestiynau am gynnwys y polisi hwn neu awgrymiadau ar gyfer newid at [SWYDD].

**2.2** Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch defnyddio’r polisi hwn o ddydd i ddydd, at [SWYDD] yn yr achos cyntaf.

**2.3** Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan [SWYDD].

## 3. Cwmpas a phwrpas y polisi

**3.1** Mae’r polisi hwn yn berthnasol i ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr sy’n defnyddio dyfais symudol bersonol gan gynnwys unrhyw feddalwedd neu galedwedd ategol (y cyfeirir ati fel dyfais yn y polisi hwn) at ddibenion y mudiad. Mae'n berthnasol i'r defnydd o'r ddyfais yn ystod a thu allan i oriau swyddfa a waeth ble mae'n cael ei defnyddio.

**3.2** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddyfeisiau a ddefnyddir i gael mynediad i adnoddau TG a systemau cyfathrebu'r mudiad (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel systemau yn y polisi hwn), a all gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffonau clyfar, ffonau symudol neu gellog, llechi, a gliniaduron neu gyfrifiaduron nodiadau.

**3.3** Pan fyddwch yn cyrchu ein systemau efallai y byddwch yn gallu cyrchu data am [staff, ymddiriedolwyr eraill, gwirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth, cefnogwyr, cyflenwyr] a chysylltiadau eraill, gan gynnwys gwybodaeth sy'n gyfrinachol, yn berchnogol neu'n breifat ac a all gynnwys data personol. Mae diffiniad data yn eang iawn, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ysgrifenedig, llafar ac electronig a gedwir, a ddefnyddir neu a drosglwyddir gennym ni neu ar ein rhan, ar ba bynnag ffurf (cyfeirir ato'n gyfunol fel Data'r Mudiad yn y polisi hwn).

**3.4** Pan fyddwch yn cyrchu ein systemau gan ddefnyddio dyfais, rydym yn agored i nifer o risgiau, gan gynnwys colli neu ddwyn y ddyfais (a allai arwain at fynediad anawdurdodedig i'n systemau neu Ddata'r Mudiad), y bygythiad o faleiswedd (fel firysau, mwydod, ysbïwedd, Trojans neu fygythiadau eraill y gellid eu cyflwyno i'n systemau drwy ddyfais) a cholli neu newid heb awdurdod Data'r Mudiad (gan gynnwys gwybodaeth bersonol a chyfrinachol a allai ein gwneud yn agored i risgiau diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol cyfrinachedd, diogelu data a phreifatrwydd). Gallai risgiau o'r fath arwain at niwed i'n systemau, ein busnes a'n henw da.

**3.5** Pwrpas y polisi hwn yw diogelu ein systemau a Data'r Mudiad, ac atal Data'r Mudiad rhag cael ei golli, ei ddatgelu neu ei newid yn fwriadol neu'n anfwriadol, tra'n eich galluogi i gyrchu ein systemau gan ddefnyddio dyfais. Mae'r polisi hwn yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallwn fonitro eich defnydd o'n systemau, cyrchu'ch dyfais ac adalw, dileu neu ddinistrio data arni a'r camau y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas ag achosion o dorri'r polisi hwn. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn monitro, cofnodi a phrosesu data personol wedi'i chynnwys yn ein [Hysbysiad Preifatrwydd] a [Polisi Diogelu Data] ar wahân.

**3.6** Gall torri'r polisi hwn olygu ein bod yn dirymu eich mynediad i'n systemau, boed hynny drwy ddyfais neu fel arall. Mae'n ofynnol i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad i amheuaeth o dorri amodau, a allai gynnwys rhoi mynediad i ni i'r ddyfais ac unrhyw gyfrineiriau a manylion mewngofnodi perthnasol.

**3.7** Efallai na fydd gan rai dyfeisiau'r gallu i gysylltu â'n systemau. Nid ydym o dan unrhyw rwymedigaeth i addasu ein systemau na'ch cynorthwyo fel arall i gysylltu â'n systemau.

## 4. Cysylltu dyfeisiau â'n systemau

**4.1** Mae cysylltedd pob dyfais yn cael ei reoli'n ganolog gan [yr Adran TG] sy'n gorfod cymeradwyo dyfais cyn y gellir ei chysylltu â'n systemau. [Rhaid i ddyfeisiau gydymffurfio â'n [Polisi Diogelwch TG].] [Rhaid i ddyfeisiau fod ar y rhestr gymeradwy o ddyfeisiau, sydd ar gael o [SWYDD] NEU'R Adran TG]]. Gallwch wneud cais i ddyfais gael ei hychwanegu at y rhestr gymeradwy trwy ei chyflwyno i [SWYDD] NEU'R Adran TG] a fydd â disgresiwn llawn i gymeradwyo neu wrthod y ddyfais.

**4.2** Cyn defnyddio'ch dyfais i gysylltu â'n systemau, neu i gael mynediad at Ddata'r Mudiad, yn unol â'r polisi hwn, rhaid i chi:

**4.2.1** cofrestru eich dyfais gyda [yr Adran TG]; a
**4.2.2** cyflwyno eich dyfais i [yr Adran TG] i'w chymeradwyo a'i chyflunio; a
**4.2.3** gweithredu, ar ein cost ni, unrhyw fesurau diogelwch technegol y gall [yr Adran TG] yn rhesymol ofyn amdanynt, gan gynnwys [nodwch y manylion].

**4.3** Ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw ddyfais ac eithrio'r ddyfais sydd wedi'i chofrestru a'i chymeradwyo gennym ni. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod neu ddileu caniatâd i'ch dyfais gysylltu â'n systemau. Bydd [yr Adran TG] yn gwrthod neu'n dirymu caniatâd o'r fath (a gall gymryd pob cam sy'n rhesymol angenrheidiol i wneud hynny) pan fydd, yn ein barn resymol ni, dyfais yn cael ei defnyddio neu y gallai gael ei defnyddio mewn ffordd sy'n ein peryglu ni, ein staff, ein cysylltiadau, ein systemau, neu ein Data Mudiad, neu a allai dorri'r polisi hwn fel arall.

**4.4** Er mwyn cyrchu ein systemau efallai y bydd angen i [yr Adran TG] osod rhaglenni meddalwedd ar eich dyfais. Os byddwch yn dileu unrhyw feddalwedd o'r fath, bydd eich mynediad i'n systemau yn cael ei analluogi.

## 5. Monitro

**5.1** Ein heiddo ni yw cynnwys ein systemau a Data'r Mudiad. Ein heiddo ni yw'r holl ddeunyddiau, data, cyfathrebiadau a gwybodaeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i e-byst (yn mynd allan ac yn dod i mewn), sgyrsiau ffôn a recordiadau post llais, negeseuon gwib a phostiadau a gweithgareddau rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol, a grëwyd ar ddyfais, a drosglwyddir i ddyfais, a gaiff eu derbyn neu eu hargraffu o ddyfais, neu eu storio neu eu recordio ar ddyfais (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel cynnwys yn y polisi hwn) yn ystod gweithrediadau'r Mudiad neu ar ein rhan ni, ni waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais.

**5.2** Rydym yn cadw'r hawl i fonitro, rhyng-gipio, adolygu a dileu, heb rybudd pellach, yr holl gynnwys ar y ddyfais sydd wedi'i chreu ar ein cyfer ni neu ar ein rhan. Gallai hyn gynnwys, heb gyfyngiad, monitro, rhyng-gipio, cyrchu, recordio, datgelu, archwilio, adolygu, adalw ac argraffu trafodion, negeseuon, cyfathrebiadau, postiadau, mewngofnodion, recordiadau a defnyddiau eraill o'r ddyfais yn ogystal â dal trawiadau bysell a thechnolegau monitro rhwydwaith eraill, p'un a yw'r ddyfais yn eich meddiant ai peidio.

**5.3** Mae'n bosibl y bydd data personol ar eich dyfais yn cael ei fonitro, ei ryng-gipio, ei adolygu neu ei ddileu yn anfwriadol. Felly, ni ddylai fod gennych unrhyw ddisgwyliad o breifatrwydd o ran unrhyw ddata ar y ddyfais. Fe'ch cynghorir i beidio â defnyddio ein systemau ar gyfer unrhyw fater y bwriedir ei gadw'n breifat neu'n gyfrinachol. Os ydych yn defnyddio eich dyfais i brosesu data personol am drydydd partïon (er enghraifft eich teulu a'ch ffrindiau) dylech fod yn ymwybodol y gallai hyn gael ei fonitro, ei ryng-gipio, ei adolygu neu ei ddileu yn anfwriadol. Dylech sicrhau bod unrhyw drydydd parti yn ymwybodol y gallai eu data personol gael ei fonitro'n anfwriadol.

**5.4** Bydd monitro, rhyng-gipio, adolygu neu ddileu cynnwys ond yn cael ei wneud i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu at ein dibenion cyfreithlon, gan gynnwys, heb gyfyngiad, er mwyn:

**5.4.1** atal camddefnydd o'r ddyfais a diogelu Data'r Mudiad;
**5.4.2** sicrhau cydymffurfiaeth â'n rheolau, safonau ymddygiad a pholisïau mewn grym o bryd i'w gilydd (gan gynnwys y polisi hwn); a
**5.4.3** sicrhau nad ydych yn defnyddio ein cyfleusterau na'n systemau at unrhyw ddibenion neu weithgareddau anghyfreithlon a allai niweidio ein busnes neu ein henw da.

**5.5** Gallwn hefyd storio copïau o unrhyw gynnwys am gyfnod o amser ar ôl iddo gael ei greu a gallwn ddileu copïau o'r fath o bryd i'w gilydd heb rybudd. Mae'n bosibl y byddwn yn cael ac yn datgelu copïau o gynnwys o'r fath neu o'r ddyfais gyfan (gan gynnwys cynnwys personol) ar gyfer ymgyfreitha neu ymchwiliadau.

**5.6** Drwy lofnodi'r datganiad ar ddiwedd y polisi hwn, rydych yn cydnabod eich bod wedi cael gwybod bod y Mudiad yn cynnal gwaith monitro o'r fath lle mae ganddo sail gyfreithlon i wneud hynny ac rydych yn cadarnhau eich cytundeb (heb rybudd pellach na chaniatâd) i'n hawl i gopïo, dileu neu lanhau'r ddyfais gyfan (gan gynnwys unrhyw ddata personol sydd wedi'i storio ar y ddyfais). Rydych hefyd yn cytuno eich bod yn defnyddio'r ddyfais yn ôl eich risg eich hun ac na fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golledion, difrod nac atebolrwydd sy'n deillio o'i defnydd, gan gynnwys unrhyw golled, llygru neu gamddefnydd o unrhyw gynnwys neu golli mynediad i neu gamddefnydd o unrhyw ddyfais, ei meddalwedd neu ei swyddogaeth.

**5.7** Rhaid i chi gydweithredu â ni i alluogi gwaith monitro o'r fath gan gynnwys darparu unrhyw gyfrineiriau neu rifau PIN sy'n angenrheidiol i gael mynediad i'r ddyfais neu gymwysiadau perthnasol.

## 6. Gofynion diogelwch

**[Dylid adolygu'r rhestr hon a'i theilwra yn unol â hynny yn dibynnu ar ofynion y mudiad o ran dyfeisiau personol a'u defnydd. Dylid dileu gwybodaeth nad yw'n berthnasol. DYLID DILEU'R SYLWAD HWN AR ÔL EI YSTYRIED]**

**6.1** Mae'n rhaid i chi:

**6.1.1** ddefnyddio eich ymdrechion gorau bob amser i ddiogelu'r ddyfais yn gorfforol rhag colled, lladrad neu ddefnydd gan bobl nad ydym wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r ddyfais. Rhaid i chi ddiogelu'r ddyfais p'un a yw'n cael ei defnyddio ai peidio a ph'un a yw'n cael ei chludo gennych chi ai peidio. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfrineiriau, amgryptio, a rheolaeth gorfforol o'r ddyfais;

**6.1.2** [gosod unrhyw feddalwedd gwrth-feirws neu wrthfaleiswedd ar ein cais cyn cysylltu â'n systemau a chydsynio i'n hymdrechion i reoli'r ddyfais a diogelu ei data, gan gynnwys rhoi unrhyw gyfrineiriau angenrheidiol i ni];

**6.1.3** [cydymffurfio â'n gofynion o ran cyfluniad y ddyfais];

**6.1.4** [diogelu'r ddyfais gyda rhif PIN neu gyfrinair cryf, a chadw'r rhif PIN neu'r cyfrinair hwnnw'n ddiogel bob amser. Dylid newid y rhif PIN neu gyfrinair bob [NIFER] wythnos]. Os oes perygl i gyfrinachedd rhif PIN neu gyfrinair, rhaid i chi ei newid ar unwaith. Ni ddylai defnyddio rhifau PIN a chyfrineiriau greu disgwyliad o breifatrwydd gennych chi yn y ddyfais;]

**6.1.5** [peidio â lawrlwytho a gosod meddalwedd i'r ddyfais oni bai bod hynny wedi'i awdurdodi'n benodol gennym ni. Mae rhestr o gymwysiadau sydd eisoes wedi'u hawdurdodi a'r rhai sydd wedi'u gwahardd yn benodol ar gael o [SWYDD]];

**6.1.6** [peidio â newid gosodiadau diogelwch y ddyfais heb ein caniatâd];

**6.1.7** [cynnal system weithredu wreiddiol y ddyfais a'i chadw'n gyfredol gyda phatsys diogelwch a diweddariadau. Gwaherddir dyfeisiau gwreiddio (Android) neu jailbroken (iOS) yn llwyr rhag cyrchu ein systemau neu Ddata'r Mudiad];

**6.1.8** [sicrhau nad oes gan unrhyw un a allai ddefnyddio'ch dyfais o bryd i'w gilydd, fel eich teulu, ffrindiau a chymdeithion busnes fynediad at Ddata'r Mudiad a gedwir ar y ddyfais];

**6.1.9** [peidio â lawrlwytho na throsglwyddo unrhyw Ddata Mudiad i'r ddyfais, er enghraifft drwy atodiadau e-bost, oni bai bod awdurdod penodol i wneud hynny. Rhaid i chi ddileu ar unwaith unrhyw wybodaeth o'r fath sy'n cael ei llwytho i lawr yn anfwriadol i'r ddyfais;]

**6.1.10** [peidio â gwneud copi wrth gefn o'r ddyfais yn lleol nac i storfa neu wasanaethau cwmwl lle gallai hynny arwain at wneud copi wrth gefn neu storio Data'r Mudiad. Rhaid dileu unrhyw gopïau wrth gefn o'r fath a grëir yn anfwriadol ar unwaith;]

**6.1.11** [pan fyddwn wedi caniatáu i chi storio Data'r Mudiad ar y ddyfais, sicrhewch fod Data'r Mudiad wedi'i amgryptio gan ddefnyddio technolegau amgryptio priodol a gymeradwywyd gan [[SWYDD] neu'r Adran TG];]

**6.1.12** [peidio â defnyddio'r ddyfais fel poethfan symudol heb ein caniatâd ymlaen llaw.]

**6.1.13** [peidio â defnyddio Wi-Fi cyhoeddus heb ei ddiogelu i gael mynediad i'n systemau heb ein caniatâd ymlaen llaw.]

**6.1.14** [peidio â gwerthu, amnewid na throsglwyddo'r ddyfais i unrhyw un arall heb ein caniatâd ymlaen llaw].

## 7. Dyfeisiau sydd ar goll neu wedi'u dwyn a mynediad heb awdurdod

Os bydd dyfais ar goll neu wedi'i dwyn, neu os ydych chi'n credu y gallai person heb awdurdod fod wedi cael mynediad i ddyfais neu ei bod wedi'i pheryglu fel arall, rhaid i chi roi gwybod i [yr Adran TG] ar unwaith.

Cymerir camau priodol i sicrhau bod Data'r Mudiad sydd ar y ddyfais neu'n hygyrch o'r ddyfais yn ddiogel, gan gynnwys glanhau'r ddyfais o bell lle bo'n briodol. Bydd y glanhau o bell yn dinistrio holl Ddata'r Mudiad ar y ddyfais. Er nad ydym yn bwriadu glanhau data arall sy'n hollol bersonol ei natur (fel ffotograffau neu ffeiliau personol neu e-byst), efallai na fydd yn bosibl gwahaniaethu rhwng yr holl wybodaeth o'r fath a Data'r Mudiad o dan bob amgylchiad. Felly dylech wneud copi wrth gefn yn rheolaidd o'r holl ddata personol sydd wedi'i storio ar y ddyfais.

8. **Glanhau dyfeisiau**
Rydym yn cadw'r hawl i ddileu eich mynediad i'n systemau a, lle bo'n briodol, tynnu unrhyw Ddata Mudiad o'r ddyfais, yn uniongyrchol neu o bell ar unrhyw adeg. Er nad ydym yn bwriadu glanhau data arall ar eich dyfais, efallai na fydd yn bosibl gwahaniaethu rhwng yr holl wybodaeth o'r fath a Data'r Mudiad o dan bob amgylchiad. Felly dylech wneud copi wrth gefn yn rheolaidd o unrhyw ddata personol sydd wedi'i gadw ar y ddyfais.

9. **Cymorth Technegol**
Ni allwn ddarparu cymorth technegol ar gyfer dyfeisiau. Os byddwch yn defnyddio dyfais at ddibenion elusennol, chi sy'n gyfrifol am unrhyw gostau a gwasanaethau atgyweirio, cynnal a chadw neu adnewyddu.

10. **Costau ac Ad-daliadau**

**10.1** Rhaid i chi dalu am gostau eich dyfais eich hun o dan y polisi hwn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i daliadau defnyddio llais a data ac unrhyw gostau prynu ac atgyweirio. Drwy lofnodi'r datganiad ar ddiwedd y polisi hwn rydych yn cydnabod mai chi yn unig sy'n gyfrifol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r ddyfais a'ch bod yn deall y gallai eich defnydd busnes o'r ddyfais gynyddu eich costau defnyddio llais a data.

**10.2** Rydych hefyd yn cytuno eich bod yn defnyddio'r ddyfais yn ôl eich risg eich hun ac na fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golledion, difrod nac atebolrwydd sy'n deillio o'i defnydd, gan gynnwys unrhyw golled, llygru neu gamddefnydd o unrhyw gynnwys neu golli mynediad i neu gamddefnydd o unrhyw ddyfais, ei meddalwedd neu ei swyddogaeth.

11. **Newidiadau i'r polisi hwn**
Diweddarwyd yr hysbysiad polisi hwn ddiwethaf ar [ ] . Rydym yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd a gallwn ei newid o bryd i'w gilydd.

## Datganiad a Chytundeb

Dymunaf ddefnyddio fy nyfais symudol bersonol at ddibenion [ENW'R MUDIAD] a chadarnhau'n benodol fy nealltwriaeth a'm cytundeb i'r canlynol:

- Rwyf wedi darllen, deall a chytuno i'r holl delerau sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi ar ddefnydd ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr o'n dyfeisiau ein hun.

- Deallaf y bydd telerau'r polisi hwn yn berthnasol i mi bob amser, yn ystod neu y tu allan i oriau swyddfa ac mewn unrhyw leoliad.
- Rwy'n cydnabod ac yn cytuno y bydd gan bersonél awdurdodedig [ENW'R MUDIAD] yr hawliau a nodir yn y polisi hwn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r hawl i gyrchu, monitro, adolygu, cofnodi a glanhau (yn ôl y gofyn) data sydd wedi'i gynnwys ar fy nyfais bersonol (yr wyf yn cydnabod y gallai arwain at fynediad anfwriadol at neu ddinistrio fy nata i).
- Rwy'n deall ac yn cytuno y gall [ENW'R MUDIAD] yn ôl ei ddisgresiwn ddiwygio, neu ddileu'r polisi hwn ar unrhyw adeg ac y byddaf yn rhwym i delerau'r polisi fel y'i diwygiwyd.

.....................................................................
LLOFNODWYD

.....................................................................
ENW MEWN LLYTHRENNAU BRAS

.....................................................................
DYDDIAD

# POLISI DIOGELU DATA ENGHREIFFTIOL

# Gan ddefnyddio'r canllawiau hyn

***Defnyddio’r templed hwn – mae'r templed yn cynnwys cromfachau sgwâr ac uwcholeuo i ddangos y meysydd y bydd angen i chi nodi gwybodaeth ynddynt a/neu ystyried a yw'r opsiynau a ddangosir yn berthnasol i'ch mudiad. Ni ddylai eich adolygiad fod yn gyfyngedig i’r meysydd hyn, gan y gall fod meysydd yn y templed nad ydynt yn berthnasol i’ch mudiad ac fe ddylid eu dileu.***

***Pan fyddwch wedi cwblhau eich polisi, dylech gael gwared ar yr holl gromfachau sgwâr a’r uwcholeuo*.**

***Os nad ydych yn siŵr a yw gwybodaeth benodol yn berthnasol i’ch mudiad, dylech geisio cyngor cyfreithiol ar wahân ar gynnwys y polisi hwn cyn ei gwblhau’n derfynol***

# 1.Cyflwyniad

Mae’r polisi hwn yn darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (“GDPR y DU”) a Deddf Diogelu Data 2018 y mae’n rhaid i [Enw’r Mudiad] (“y Mudiad”, “ni”, “ein”) gydymffurfio â hi.

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr ac eraill sy’n gweithio i ni.

Mae'r polisi hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r gofynion cyfreithiol. Mae’n nodi’r hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych yn gyffredinol wrth drin data personol, ni waeth ym mha fformat y caiff ei storio. Mae’n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Gweithwyr a chyflogeion ac ymgeiswyr cyfredol neu flaenorol
- Gwirfoddolwyr ac ymgeiswyr cyfredol neu flaenorol
- Ymddiriedolwyr ac ymgeiswyr cyfredol neu flaenorol
- [buddiolwyr / cleientiaid / defnyddwyr ein gwasanaethau]
- Defnyddwyr ein sianeli cyfryngau ar-lein a digidol
- Cefnogwyr, rhoddwyr a chyllidwyr cyfredol, blaenorol neu ddarpar gefnogwyr rhoddwyr a chyllidwyr gan gynnwys unigolion a chynrychiolwyr mudiadau
- Pobl rydym yn ymgysylltu â nhw mewn perthynas â'n gweithgarwch ymgyrchu
- Cynrychiolwyr mudiadau y mae gennym bartneriaethau â nhw, neu yr ydym yn cydweithio â nhw
- Cynrychiolwyr ein cyflenwyr

Rhaid i chi ddarllen, deall a chydymffurfio â’r polisi hwn wrth drin data personol ar ein rhan a mynychu unrhyw hyfforddiant gorfodol ar ei ofynion. Gall y polisi gael ei ategu gan ganllawiau penodol sy'n berthnasol i'ch rôl.

Mae’n orfodol i chi gydymffurfio â'r polisi hwn. Gall unrhyw achos o dorri'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu.

Dogfen fewnol yw’r polisi hwn ac ni ellir ei rhannu ag unrhyw un y tu allan i’r Mudiad heb awdurdod ymlaen llaw gan y [Swyddog Diogelu Data/Arweinydd Diogelu Data].

## 2.Diffiniadau

Defnyddir y diffiniadau canlynol yn y polisi hwn:

**Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd (GPA)**
Sef pan wneir penderfyniad sy'n seiliedig ar Brosesu Awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio) sy'n creu effeithiau cyfreithiol neu sy'n effeithio'n sylweddol ar unigolyn. Mae GDPR y DU yn gwahardd Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd (oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni) ond nid Prosesu Awtomataidd.

**Prosesu Awtomataidd**
Sef unrhyw fath o brosesu Data Personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio Data Personol i werthuso rhai agweddau personol sy'n ymwneud ag unigolyn, yn arbennig i ddadansoddi neu ragfynegi agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad yr unigolyn hwnnw yn y gwaith, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, diddordebau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau. Mae proffilio yn enghraifft o Brosesu Awtomataidd, yn ogystal â llawer o enghreifftiau o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) pan fo'n ymwneud â phrosesu Data Personol.

**Cydsyniad**
Sef cytundeb y mae'n rhaid iddo fod wedi'i roi'n rhydd, yn benodol, yn hysbys ac yn arwydd diamwys o ddymuniadau Gwrthrych y Data er mwyn iddynt, drwy ddatganiad neu drwy weithred gadarnhaol glir, ddynodi eu cytundeb i Brosesu Data Personol sy'n ymwneud â nhw.

**Rheolydd**
Sef y person neu'r mudiad sy'n penderfynu pryd, pam a sut i brosesu Data Personol. Ni yw Rheolydd Data yr holl Ddata Personol a ddefnyddir yn ein mudiad at ein dibenion ein hunain.

**Data Euogfarnau Troseddol**
Sef data personol yn ymwneud â throseddau ac euogfarnau troseddol, gan gynnwys data personol yn ymwneud â honiadau ac achosion troseddol.

**Gwrthrych y Data**
Sef unigolyn byw, a adnabyddir neu sy'n adnabyddadwy yr ydym yn cadw Data Personol amdanynt. Gall Gwrthrychau'r Data fod yn ddinasyddion neu'n breswylwyr o unrhyw wlad a gall fod ganddynt hawliau cyfreithiol o ran eu Data Personol.

**Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data**
Sef offer ac asesiad a ddefnyddir i nodi a lleihau risgiau gweithgarwch prosesu data. Gellir cynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data fel rhan o Breifatrwydd drwy Ddyluniad a dylid ei gynnal ar gyfer pob rhaglen newid busnes neu system fawr sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol.

**[Swyddog Diogelu Data (SDD)] neu [Arweinydd Diogelu Data (ADD)]**
Sef y person sy'n gyfrifol am gydymffurfio â diogelu data yn ein mudiad. Y person hwnnw ar hyn o bryd yw [ ].

**Cydsyniad Penodol**
Sef caniatâd sy'n gofyn am ddatganiad clir a phenodol iawn (hynny yw, nid dim ond gweithredu).

**GDPR y DU**
Sef fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018. Mae Data Personol yn amodol ar y mesurau diogelu cyfreithiol a nodir yn GDPR y DU.

**Data Personol**
Sef unrhyw wybodaeth sy'n dynodi Gwrthrych y Data neu wybodaeth sy'n ymwneud â Gwrthrych y Data y gallwn adnabod Gwrthrych y Data ohoni (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) boed o'r data hwnnw'n unig neu mewn cyfuniad â dynodwyr eraill sydd gennym neu y gallwn gael mynediad rhesymol iddynt. Mae Data Personol yn cynnwys Data Personol categori Arbennig a Data Personol dan Ffugenw ond nid yw'n cynnwys data dienw neu ddata y mae hunaniaeth unigolyn wedi'i dileu'n barhaol ohono. Gall data personol fod yn ffeithiol (er enghraifft, enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad neu ddyddiad geni) neu farn am weithredoedd neu ymddygiad y person hwnnw.

**Tor Diogelwch Data Personol**
Sef unrhyw weithred neu anwaith sy'n peryglu diogelwch, cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd Data Personol neu'r mesurau diogelu ffisegol, technegol, gweinyddol neu sefydliadol yr ydym ni neu ein darparwyr gwasanaethau trydydd parti wedi'u rhoi ar waith i'w ddiogelu. Mae colli, neu fynediad heb awdurdod, datgelu neu gaffael Data Personol yn Dor Diogelwch Data Personol.

**Preifatrwydd drwy Ddyluniad**
Sef gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn modd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU.

**Hysbysiad Preifatrwydd neu Bolisïau Preifatrwydd**
Sef hysbysiadau ar wahân yn nodi gwybodaeth y gellir ei darparu i Wrthrychau'r Data pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanynt. Gall yr hysbysiadau hyn fod ar ffurf:

- datganiadau preifatrwydd cyffredinol sy'n berthnasol i grŵp penodol o unigolion (er enghraifft, hysbysiadau preifatrwydd gweithwyr neu bolisi preifatrwydd y wefan); neu
- datganiadau preifatrwydd unigol, untro sy'n cwmpasu Prosesu sy'n ymwneud â diben penodol.

**Prosesu neu Broses**
Sef unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys defnyddio Data Personol. Mae'n cynnwys cael, cofnodi neu ddal y data, neu gyflawni unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau ar y data gan gynnwys ei drefnu, ei ddiwygio, ei adalw, ei ddefnyddio, ei ddatgelu, ei ddileu neu ei ddinistrio. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trosglwyddo Data Personol i drydydd partïon.

**Data dan Ffugenw neu Ffugenwi**
Sef disodli gwybodaeth sy'n dynodi unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gydag un neu fwy o ddynodwyr neu ffugenwau artiffisial fel na ellir adnabod y person y mae'r data'n ymwneud ag ef, heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chadw ar wahân ac yn ddiogel.

**Data Personol Categori Arbennig**
Sef gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hil neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau tebyg, aelodaeth o undeb llafur, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, data biometrig neu enetig.

## 3. Egwyddorion Diogelu Data

Rydym yn cadw at yr egwyddorion sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol a nodir yn GDPR y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Data Personol yn bodloni'r canlynol:

- ei fod wedi ei brosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw.
- ei fod wedi ei gasglu at ddibenion penodedig, penodol, a dilys yn unig;
- ei fod yn ddigonol, yn berthnasol, ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran diben ei Brosesu;
- yn gywir a, lle bo angen, wedi'i chadw'n gyfredol;
- heb ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod Gwrthrychau'r Data am gyfnod nad yw'n hwy nag yr hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y Prosesir y data ar eu cyfer;
- ei fod wedi ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a threfniadol priodol i amddiffyn rhag Prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol;
- ei fod heb ei drosglwyddo i wlad arall heb fod mesurau diogelu priodol ar waith; ac
- ei fod ar gael i Wrthrychau'r Data ac yn caniatáu i Wrthrychau'r Data arfer hawliau penodol mewn perthynas â'u Data Personol.

Mae'n rhaid i ni hefyd gydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol pan fydd gan gyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau i ni fynediad at Ddata Personol a phan fyddwn yn gweithio gyda mudiadau ac angen rhannu Data Personol.

Rydym yn gyfrifol am yr egwyddorion hyn, ac mae'n rhaid i ni allu dangos ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn o dan y gyfraith.

## 4. Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder

Rhaid Prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â Gwrthrych y Data.

Dim ond mewn modd teg a chyfreithlon ac at ddibenion penodol y cewch gasglu, prosesu a rhannu Data Personol. Mae'r gyfraith yn cyfyngu ein gweithredoedd o ran Data Personol i ddibenion cyfreithlon penodol. Nid yw'r cyfyngiadau hyn wedi'u bwriadu i atal Prosesu ond yn hytrach yn sicrhau ein bod yn Prosesu Data Personol yn deg a heb effeithio'n andwyol ar Wrthrych y Data.

Mae'r seiliau cyfreithlon sydd ar gael wrth brosesu data personol categori nad yw'n arbennig fel a ganlyn:

- mae Gwrthrych y Data wedi cydsynio i brosesu ei ddata/ei data personol at un neu fwy o ddibenion penodol
- mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract rhyngom ni a Gwrthrych y Data neu er mwyn cymryd camau ar gais Gwrthrych y Data cyn ymrwymo i gontract
- mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi
- mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data neu berson naturiol arall
- mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd
- mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys yr ydym yn eu dilyn neu y mae trydydd parti yn eu dilyn, ac eithrio pan fo buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol Gwrthrych y Data, sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn drech na'r buddiannau hynny, yn enwedig pan fo Gwrthrych y Data yn blentyn.

Mae amrywiaeth o ofynion cyfreithiol ychwanegol yn berthnasol wrth brosesu Data Personol Categori Arbennig neu Ddata Euogfarnau Troseddol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Neddf Diogelu Data 2018. Gweler yr adran diffiniadau am y mathau o wybodaeth y mae hyn yn eu cynnwys. Os yw eich rôl yn golygu bod gofyn i chi brosesu Data Personol Categori Arbennig neu Ddata Euogfarnau Troseddol, byddwch yn derbyn arweiniad ychwanegol ar hyn.

## 5.Cydsyniad

**[Mae GDPR y DU yn gosod safon uchel ar gyfer cydsyniad sydd, mewn llawer o achosion, wedi ei gwneud yn ofynnol i fusnesau newid eu mecanweithiau cydsyniad. Gall dibynnu ar gydsyniad amhriodol adael y mudiad yn agored i gamau gorfodi. Dylai mudiadau gadw cofnodion i roi tystiolaeth o gydsyniad gan gynnwys pwy a gydsyniodd, pryd, sut, a beth a ddywedwyd wrthynt. Mae angen adnewyddu cydsyniad "ar adegau priodol" ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn argymell bob dwy flynedd fel canllaw bras- DILEU UNWAITH YR YSTYRIWYD]**

Dim ond ar un neu fwy o'r seiliau cyfreithlon a nodir yn GDPR y DU y caiff Rheolydd brosesu Data Personol, sy'n cynnwys Cydsyniad.

Mae Gwrthrych y Data yn cydsynio i Brosesu ei Ddata Personol os yw'n nodi'n glir ei fod yn cytuno â'r Prosesu. Mae cydsyniad yn gofyn am weithredu cadarnhaol, felly ni fydd distawrwydd, blychau wedi'u ticio ymlaen llaw neu anweithgarwch yn ddigon i ddangos cydsyniad. Os rhoddir Cydsyniad mewn dogfen sy'n ymdrin â materion eraill, yna rhaid cadw'r Cydsyniad ar wahân i'r materion eraill hynny.

Rhaid i Wrthrych y Data allu tynnu Cydsyniad i Brosesu yn ôl yn hawdd ar unrhyw adeg a rhaid anrhydeddu'r broses dynnu'n ôl yn brydlon. Efallai y bydd angen adnewyddu cydsyniad os ydych yn bwriadu Prosesu Data Personol at ddiben gwahanol ac anghydnaws nas datgelwyd pan gydsyniodd Gwrthrych y Data gyntaf.

Wrth brosesu Data Categori Arbennig neu Ddata Euogfarnau Troseddol, byddwn fel arfer yn dibynnu ar sail gyfreithiol ar gyfer prosesu ar wahân i Gydsyniad neu Gydsyniad Penodol os yn bosibl. Os dibynnir ar Gydsyniad Penodol, rhaid i chi roi Hysbysiad Preifatrwydd i Wrthrych y Data i gasglu Cydsyniad Penodol.

Bydd angen i chi ddangos tystiolaeth bod Cydsyniad wedi'i gasglu a chadw cofnodion o'r holl Gydsyniadau fel y gallwn ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Cydsyniad.

## 6. Tryloywder

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth fanwl, benodol am ein defnydd o Ddata Personol i Wrthrychau'r Data. Rhaid darparu gwybodaeth o'r fath drwy Hysbysiadau Preifatrwydd priodol sy'n gorfod bod yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd eu cyrchu, ac mewn iaith glir a syml fel bod Gwrthrych y Data yn gallu eu deall yn hawdd.

Pryd bynnag y byddwn yn casglu Data Personol yn uniongyrchol gan Wrthrych y Data, rhaid i ni ddarparu gwybodaeth i Wrthrych y Data gan gynnwys pwy ydym ni a sut a pham y byddwn yn Prosesu, datgelu, diogelu a chadw eu Data Personol. Gwneir hyn drwy Hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid ei gyflwyno pan fydd Gwrthrych y Data yn darparu'r Data Personol am y tro cyntaf.

Pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu'n anuniongyrchol (er enghraifft, gan drydydd parti neu ffynhonnell sydd ar gael yn gyhoeddus), mae'n rhaid i ni ddarparu'r wybodaeth Hysbysiad Preifatrwydd i Wrthrych y Data cyn gynted â phosibl ar ôl casglu/derbyn y data. Mae'n rhaid i ni hefyd wirio bod y Data Personol wedi'i gasglu gan y trydydd parti yn unol â'r gyfraith ac ar sail gyfreithiol sy'n ystyried ein proses arfaethedig o Brosesu'r Data Personol hwnnw.

Os ydych yn casglu Data Personol gan Wrthrych y Data, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yna mae'n rhaid i chi ddarparu Hysbysiad Preifatrwydd i Wrthrych y Data yn unol â'r polisi hwn.

## 7. Cyfyngiad ar Ddiben

Rhaid casglu Data Personol at ddibenion penodedig, penodol, a dilys yn unig. Ni ddylid ei Brosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

Ni allwch ddefnyddio Data Personol at ddibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws i'r hyn a ddatgelwyd pan gafodd ei gasglu gyntaf oni bai eich bod wedi hysbysu Gwrthrych y Data o'r dibenion newydd a bod sail gyfreithiol dros wneud hynny.

Os ydych am ddefnyddio Data Personol at ddiben newydd neu wahanol i'r un y'i casglwyd ar ei gyfer, rhaid i chi yn gyntaf gysylltu â'r [SDD/ADD] am gyngor ar sut i wneud hyn yn unol â'r gyfraith a'r polisi hwn.

## 8. Lleihau Data

Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol, ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran diben ei Brosesu.

Dim ond Data Personol sydd ei angen arnoch ar gyfer eich dyletswyddau y cewch ei gasglu: ni ddylech gasglu data gormodol. Dylech sicrhau bod unrhyw Ddata Personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol at y dibenion arfaethedig.

Rhaid i chi sicrhau, pan nad oes angen Data Personol mwyach at ddibenion penodol, ei fod yn cael ei ddileu neu ei wneud yn ddienw yn unol â'n canllawiau cadw data perthnasol.

## 9. Cywirdeb

Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir a, lle bo angen, fod wedi'i gadw'n gyfredol. Rhaid ei gywiro neu ei ddileu yn ddi-oed pan fo'n anghywir.

Dylech sicrhau bod y Data Personol a ddefnyddiwn ac a gedwir gennym yn gywir, yn gyflawn, yn gyfredol ac yn berthnasol i'r diben y casglwyd ef ar ei gyfer. Dylech wirio cywirdeb unrhyw Ddata Personol ar y pwynt casglu ac yn rheolaidd wedi hynny. Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i ddiwygio Data Personol anghywir neu sydd wedi dyddio.

## 10. Cadw

Ni ddylid cadw Data Personol ar ffurf adnabyddadwy am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data'n cael ei brosesu ar eu cyfer. Byddwn yn cynnal polisïau a gweithdrefnau cadw er mwyn sicrhau bod Data Personol yn cael ei ddileu'n ddiogel yn unol â'r gofyniad hwn. Rhaid i chi gydymffurfio â'n polisïau cadw.

## 11. Cywirdeb diogelwch a chyfrinachedd

Rhaid diogelu Data Personol gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i amddiffyn rhag Prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

Chi sy’n gyfrifol am ddiogelu’r Data Personol sydd gennym. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dilyn yr holl ganllawiau a roddir i chi sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu rhag Prosesu Data Personol yn anghyfreithlon neu heb awdurdod ac yn erbyn colli neu ddifrodi Data Personol yn ddamweiniol. Rhaid i chi fod yn arbennig o ofalus wrth ddiogelu Data Personol Categori Arbennig a Data Euogfarnau Troseddol rhag colled a mynediad, defnydd neu ddatgeliad heb awdurdod.

Rhaid i chi ddilyn yr holl weithdrefnau a thechnolegau rydym yn eu rhoi ar waith i gynnal diogelwch yr holl Ddata Personol o'r pwynt casglu hyd at y pwynt dinistrio. Dim ond i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy’n cytuno i gydymffurfio â’r polisïau a’r gweithdrefnau gofynnol ac sy’n cytuno i roi mesurau digonol ar waith, yn ôl y gofyn, y cewch drosglwyddo Data Personol.

Rhaid i chi gynnal diogelwch data drwy ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd y Data Personol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Cyfrinachedd: dim ond pobl sydd angen gwybod ac sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r Data Personol a all gael mynediad ato;
- Cywirdeb: Bod Data Personol yn gywir ac yn addas at y diben y caiff ei brosesu ar ei gyfer; ac
- Argaeledd: mae defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael mynediad at y Data Personol pan fydd ei angen arnynt at ddibenion awdurdodedig.

Rhaid i chi gydymffurfio â’r mesurau diogelu gweinyddol, ffisegol a thechnegol yr ydym yn eu gweithredu a’u cynnal yn unol â GDPR y DU a safonau perthnasol i ddiogelu Data Personol, a pheidio â cheisio eu hosgoi.

Dim ond pan fydd angen i chi wneud hynny fel rhan o'ch rôl y cewch Brosesu Data Personol. Ni allwch Brosesu Data Personol am unrhyw reswm nad yw'n gysylltiedig â'ch rôl.

## 12. Adrodd am Dor Data

Mae GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Data hysbysu Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac, mewn rhai achosion, Gwrthrych y Data am unrhyw Dor Data Personol. Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod Tor Data Personol wedi digwydd, peidiwch â cheisio ymchwilio i'r mater eich hun. Dylech gysylltu â'r [SDD/ADD] ar unwaith. Dylech gadw’r holl dystiolaeth sy’n ymwneud â’r Tor Data Personol posibl a rhoi sicrwydd i’r [SDD/ADD] yn ôl yr angen.

## 13. Cyfyngiad Trosglwyddo

Mae GDPR y DU yn cyfyngu ar drosglwyddo data i wledydd y tu allan i’r DU er mwyn sicrhau nad yw lefel y diogelu data a roddir i unigolion gan GDPR y DU yn cael ei thanseilio. Rydych chi'n trosglwyddo Data Personol sy'n tarddu o un wlad ar draws ffiniau pan fyddwch chi'n trosglwyddo, yn anfon, yn gweld neu'n cyrchu'r data hwnnw mewn gwlad wahanol neu i wlad wahanol.

Dim ond os yw un o'r amodau a ganlyn yn berthnasol y cewch drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU:

- mae'r DU wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n cadarnhau bod y wlad yr ydym yn trosglwyddo'r Data Personol iddi yn sicrhau lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer hawliau a rhyddid Gwrthrych y Data;
- bod mesurau diogelu priodol ar waith fel rheolau corfforaethol rhwymol, cymalau cytundebol safonol a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y DU, cod ymddygiad cymeradwy neu fecanwaith ardystio, y gellir cael copi ohono gan y SDD;
- bod Gwrthrych y Data wedi rhoi Cydsyniad Penodol i'r trosglwyddiad arfaethedig ar ôl cael gwybod am unrhyw risgiau posibl; neu
- mae'r trosglwyddiad yn angenrheidiol am un o'r rhesymau eraill a nodir yn GDPR y DU gan gynnwys:
- perfformiad contract rhyngom ni a Gwrthrych y Data;

    - o rhesymau budd y cyhoedd;
    - o sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol;
    - o diogelu buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data lle nad yw Gwrthrych y Data yn gallu rhoi Cydsyniad yn gorfforol neu'n gyfreithiol; ac
    - o mewn rhai achosion cyfyngedig, er ein budd dilys.

Os oes angen i chi anfon Data Personol y tu allan i'r DU, dylech gysylltu â'r [SDD/ADD] ar unwaith am gyngor.

## 14. Hawliau Gwrthrychau'r Data

Mae gan Wrthrychau'r Data hawliau o ran sut rydym yn trin eu Data Personol. Mae hyn yn cynnwys hawliau i:

- dynnu Cydsyniad i Brosesu yn ôl ar unrhyw adeg pan fo Prosesu yn seiliedig ar sail gyfreithiol cydsyniad;
- derbyn gwybodaeth benodol am ein gweithgareddau Prosesu;
- gofyn am fynediad at y Data Personol sydd gennym arnynt (gan gynnwys derbyn copi o'u Data Personol);
- atal ein defnydd o'u Data Personol at ddibenion marchnata uniongyrchol;\
- gofyn i ni ddileu Data Personol os nad yw'n angenrheidiol mwyach mewn perthynas â'r dibenion y cafodd ei gasglu neu ei brosesu ar eu cyfer neu i gywiro data anghywir neu i gwblhau data anghyflawn;
- cyfyngu ar y Prosesu mewn amgylchiadau penodol;
- gwrthwynebu Prosesu sydd wedi'i gyfiawnhau ar sail ein buddiannau dilys neu er budd y cyhoedd;
- gofyn am gopi o gytundeb sy'n sail i drosglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU;
- gwrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar Brosesu Awtomataidd yn unig, gan gynnwys proffilio (GPA);

- atal Prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu drallod i Wrthrych y Data neu unrhyw un arall;
- cael eu hysbysu am Dor Data Personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid; ac
- mewn amgylchiadau cyfyngedig, derbyn neu ofyn i'w Data Personol gael ei drosglwyddo i drydydd parti mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy gan beiriant.

Rhaid i chi wirio hunaniaeth unigolyn sy'n gofyn am ddata o dan unrhyw un o'r hawliau a restrir uchod (peidiwch â chaniatáu i drydydd partïon eich perswadio i ddatgelu Data Personol heb ganiatâd priodol).

Rhaid i chi anfon unrhyw gais Gwrthrych Data a gewch at y [SDD/ADD] ar unwaith.

## 15. Rhannu Data Personol

Dim ond i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n cytuno i gydymffurfio â'n polisïau a'n gweithdrefnau gofynnol ac sy'n cytuno i roi mesurau diogelwch digonol ar waith, yn ôl y gofyn, y cewch drosglwyddo Data Personol. Rhaid inni fod â chontract ysgrifenedig ar waith gydag unrhyw ddarparwyr gwasanaeth o'r fath yr ydym yn eu defnyddio. Rhaid i'r contract hwn gynnwys gwybodaeth benodol yn unol â gofynion GDPR y DU a dylech gysylltu â'r [SDD/ADD] ynglŷn â hyn.

Yn ogystal, er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'n arfer da cytuno ar drefniadau rhannu data yn ysgrifenedig gydag unrhyw bartneriaid rydym yn gweithio gyda nhw lle mae'r berthynas yn cynnwys rhannu Data Personol. Mae'n hanfodol bod gennych sail gyfreithiol glir ar gyfer rhannu Data Personol gyda phartneriaid o'r fath neu unrhyw drydydd parti a'ch bod yn trosglwyddo'r Data Personol yn ddiogel.

## 16. Atebolrwydd

Rhaid i'r Rheolydd weithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol mewn modd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data. Y Rheolydd sy'n gyfrifol am yr egwyddorion hyn, ac mae'n rhaid iddo/iddi allu dangos cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data.

Rhaid inni feddu ar yr adnoddau a'r rheolaethau digonol a'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU a dogfennu hynny, gan gynnwys:

- penodi SDD â chymwysterau addas (pan fo angen) neu ADD i fod yn gyfrifol am breifatrwydd data;
- gweithredu Preifatrwydd drwy Ddyluniad wrth Brosesu Data Personol a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data lle mae Prosesu yn peri risg uchel i hawliau a rhyddid Gwrthrychau'r Data;
- integreiddio diogelu data i ddogfennau mewnol gan gynnwys y polisi hwn ac unrhyw bolisïau, canllawiau preifatrwydd neu hysbysiadau preifatrwydd cysylltiedig eraill;

- sicrhau bod pawb sy'n gweithio i ni wedi'u hyfforddi'n ddigonol i'w galluogi i gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd data. Rhaid inni gadw cofnod o bresenoldeb hyfforddiant; a
- profi'r mesurau preifatrwydd a roddwyd ar waith yn rheolaidd a chynnal adolygiadau ac archwiliadau cyfnodol i asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys defnyddio canlyniadau profion i ddangos ymdrech i wella cydymffurfiaeth.

Mae'n rhaid i chi gynnal adolygiad rheolaidd o'r holl systemau a phrosesau sydd o dan eich rheolaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Polisi hwn a gwirio bod rheolaethau llywodraethu ac adnoddau digonol ar waith i sicrhau defnydd priodol a diogelwch Data Personol. Dylech ddarparu unrhyw wybodaeth i'r [SDD/ADD] yn ôl yr angen.

## 17. Cadw cofnodion

Mae GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw cofnodion llawn a chywir o'n holl weithgareddau Prosesu data.

Dylech sicrhau bod unrhyw Brosesu Data Personol yr ydych yn ei wneud yn cael ei gynnwys yn y cofnodion drwy wirio gyda'r [SDD/ADD].

## 18. Hyfforddiant Ac Archwilio

Mae'n ofynnol i ni sicrhau bod pawb sy'n gweithio i ni wedi cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd data. Mae'n rhaid i ni hefyd brofi ein systemau a'n prosesau yn rheolaidd i asesu cydymffurfiaeth.

Mae'n rhaid i chi ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â phreifatrwydd data a gynigir i chi.

Mae'n rhaid i chi gynnal adolygiad rheolaidd o'r holl systemau a phrosesau sydd o dan eich rheolaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn a gwirio bod rheolaethau llywodraethu ac adnoddau digonol ar waith i sicrhau defnydd priodol a diogelwch Data Personol.

## 19. Preifatrwydd Drwy Ddyluniad ac Asesiad Effaith Diogelu Data

Mae'n ofynnol i ni roi mesurau Preifatrwydd drwy Ddyluniad ar waith wrth Brosesu Data Personol drwy weithredu mesurau technegol a threfniadol priodol (fel ffugenwi) mewn modd effeithiol, i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data.

Rhaid i Reolwyr hefyd gynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data mewn perthynas â Phrosesu risg uchel. Os ydych yn credu bod risg uchel yn perthyn i'r gwaith Prosesu yr ydych yn ei gynnal, siaradwch â'r [SDD/ADD].

## 20. Prosesu Awtomataidd (Gan Gynnwys Proffilio) A Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd

Yn gyffredinol, gwaherddir Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd (GPA) pan fo penderfyniad yn cael effaith gyfreithiol sylweddol neu effaith arwyddocaol debyg ar unigolyn oni bai bod:

1. Gwrthrych y Data wedi rhoi Cydsyniad Penodol;
2. y Prosesu wedi'i awdurdodi gan y gyfraith; neu fod
3. y Prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni neu ymrwymo i gontract.

Os caiff mathau penodol o Ddata Personol Categorïau Arbennig neu Ddata Euogfarnau Troseddol eu prosesu, ni fydd sail (2) neu (3) yn cael eu caniatáu. Fodd bynnag, gellir Prosesu Data Personol Categorïau Arbennig a Data Euogfarnau Troseddol pan fo angen (oni bai y gellir defnyddio dulliau llai ymwthiol) er budd sylweddol y cyhoedd fel atal twyll.

Os yw penderfyniad i fod yn seiliedig ar Brosesu Awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio), yna rhaid hysbysu Gwrthrych y Data pan fyddwch yn cyfathrebu â nhw am y tro cyntaf am eu hawl i wrthwynebu. Rhaid dwyn yr hawl hon i'w sylw yn benodol a'i chyflwyno'n glir ac ar wahân i wybodaeth arall. Hefyd, rhaid rhoi mesurau addas ar waith i ddiogelu hawliau a rhyddid a buddiannau cyfreithlon Gwrthrych y Data.

Rhaid i ni hefyd hysbysu Gwrthrych y Data o'r rhesymeg sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau neu broffilio, yr arwyddocâd a'r canlyniadau a ragwelir, a rhoi'r hawl i Wrthrych y Data ofyn am ymyrraeth ddynol, mynegi ei safbwynt neu herio'r penderfyniad.

Rhaid cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data cyn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau Prosesu Awtomataidd (gan gynnwys proffilio) neu weithgareddau Gwneud Penderfyniadau yn Awtomataidd.

## 21. Marchnata Uniongyrchol

Rydym yn ddarostyngedig i reolau a chyfreithiau preifatrwydd penodol wrth ymwneud â marchnata uniongyrchol i'n [cwsmeriaid / rhoddwyr / cefnogwyr / gwirfoddolwyr / aelodau] a darpar [cwsmeriaid / rhoddwyr / cefnogwyr / gwirfoddolwyr / aelodau].

Er enghraifft, mewn cyd-destun busnes i ddefnyddiwr, yn gyffredinol mae angen caniatâd ymlaen llaw Gwrthrych y Data ar gyfer marchnata uniongyrchol electronig (er enghraifft, drwy e-bost, negeseuon testun neu alwadau awtomataidd). Mae'r eithriad cyfyngedig ar gyfer cwsmeriaid presennol a elwir yn "optio i mewn meddal" yn caniatáu i fudiad anfon negeseuon testun marchnata neu e-byst heb ganiatâd os yw:

- Wedi cael manylion cyswllt yn ystod gwerthiant i'r person hwnnw.
- Yn marchnata cynhyrchion neu wasanaethau tebyg.
- Wedi rhoi cyfle i'r person optio allan o farchnata wrth gasglu'r manylion am y tro cyntaf ac ym mhob neges farchnata ddilynol.

Rhaid i'r hawl i wrthwynebu marchnata uniongyrchol gael ei gynnig yn benodol i Wrthrych y Data mewn modd dealladwy fel bod modd gwahaniaethu rhyngddi a gwybodaeth arall.

Rhaid i wrthwynebiad Gwrthrych y Data i farchnata uniongyrchol gael ei anrhydeddu'n brydlon bob amser. Os bydd unigolyn yn optio allan o farchnata ar unrhyw adeg, dylid atal eu manylion cyn gynted â phosibl. Mae atal yn golygu cadw digon o wybodaeth i sicrhau bod dewisiadau marchnata yn cael eu parchu yn y dyfodol.

## 22. Fersiwn Polisi

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar [ ].

# **Cadw data:** Canllawiau ar gyfer cadw data adnoddau dynol

# Cadw data: Canllawiau ar gyfer cadw data adnoddau dynol

Mae’r nodyn canllaw hwn yn cyd-fynd â’r Templed Polisi Cadw Data: Canllawiau ar gyfer Cadw Data Adnoddau Dynol ac mae wedi’i gynllunio i ddarparu cymorth drafftio i’r rhai sy’n gweithredu’r polisi.  Mae'n amlinellu’r prif ystyriaethau, arferion gorau a chyngor ymarferol i sicrhau bod y polisi'n cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn gyson.

*** Nodwch y canlynol mewn perthynas â’r Templed Polisi Cadw Data: Canllawiau ar gyfer Cadw Data Adnoddau Dynol:**

- **Mae'r templed yn cynnwys cromfachau sgwâr ac uwcholeuo i ddangos y meysydd y bydd angen i chi nodi gwybodaeth ynddynt a/neu ystyried a yw'r opsiynau a ddangosir yn berthnasol i'ch mudiad. Ni ddylai eich adolygiad fod yn gyfyngedig i’r meysydd hyn, gan y gall fod meysydd yn y templed nad ydynt yn berthnasol i’ch mudiad ac fe ddylid eu dileu.**

- **Mae'r templed yn ymdrin â chyfnodau cadw ar gyfer data Adnoddau Dynol. Gellir defnyddio dogfen o’r un fformat ar gyfer pob math gwahanol o ddata personol. Y peth pwysig yw nodi'r categorïau perthnasol o ddata personol a sefydlu am ba gyfnod y dylid eu cadw.**

- **Pan fyddwch wedi cwblhau eich canllawiau, dylech gael gwared ar yr holl gromfachau sgwâr a’r uwcholeuo.**

- **Ceir argymhellion am gyfnodau cadw ar gyfer data AD yn y canllawiau hyn. Nid cyngor cyfreithiol mohonynt ac ni ellir dibynnu arnynt at y diben hwnnw. Dylai eich mudiad geisio cyngor cyfreithiol ar wahân os yw’n ansicr am ba mor hir y dylid cadw data personol.**

| Cymal | Canllawiau |
|---|---|
| **1.3** | Dylid nodi'r person sydd wedi'i ddynodi i oruchwylio materion Diogelu Data ar gyfer eich mudiad. Gallwch ddefnyddio teitl y swydd yn hytrach nag enw. |
| **4** | Dylid diwygio fel y bo'n briodol ar gyfer yr unigolyn. Unwaith eto, dylid cynnwys yr opsiwn a'r manylion mwyaf perthnasol – e.e. a all cyflogeion ddiweddaru'r wybodaeth hon yn awtomatig gan ddefnyddio porth ar-lein a allai fod gennych, neu a fyddai angen iddynt hysbysu person dynodedig? |
| **7.2** | Argymhellir 12 mis ond dylai hyn adlewyrchu'r hyn yr ydych yn ei wneud yn ymarferol ar hyn o bryd os nad yw ymgeisydd am swydd yn llwyddiannus. Adlewyrchir y sefyllfa hon hefyd yn y tabl isod. |
| **Cymal 8** | Mae'r tabl hwn yn cynnwys enghreifftiau o gategorïau o wybodaeth yr ydych yn debygol o'i chasglu gan gyflogeion. Dylid tynnu unrhyw gategorïau sy'n amherthnasol ac ychwanegu unrhyw gategorïau eraill o wybodaeth yr hoffech eu cynnwys yn y tabl. Rydym wedi gwneud rhai awgrymiadau/argymhellion mewn perthynas â'r cyfnodau cadw i chi eu hadolygu a'u hystyried.<br><br>Gan fod posibilrwydd y gallai unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â gweithiwr/cyflogai fod yn berthnasol i hawliad Tribiwnlys, Llys Sirol neu Uchel Lys, gallai cyflogwyr ystyried ei bod yn briodol mewn achosion penodol i gadw cofnodion perthnasol am hyd at saith mlynedd ar ôl terfynu cyflogaeth. Mae hynny'n ystyried y cyfnod cyfyngiad chwe blynedd ac yn cynnwys blwyddyn arall ar gyfer hawliadau a gaiff eu dwyn i gyrraedd y cyflogwr. Mewn rhai achosion gall cyfnodau hirach fod yn briodol.<br><br>Yn yr achosion canlynol, mae isafswm cyfnodau cadw statudol yn berthnasol:<br><br>• Gwiriadau mewnfudo: ddwy flynedd ar ôl terfynu cyflogaeth (adran 15(7)(c), Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 ac erthygl 6(b), Gorchymyn Mewnfudo (Cyfyngiadau ar Gyflogaeth) 2007 (OS 2007/3290)).<br>• Cofnodion TWE: o leiaf dair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y maent yn berthnasol iddi (rheoliad 97, Rheoliadau Treth Incwm (Talu Wrth Ennill) 2003 (OS 2003/2682)).<br>• Cofnodion cyflogres a chyflogau ar gyfer cwmnïau: chwe blynedd o ddiwedd y flwyddyn ariannol y gwnaed taliadau ynddi (paragraff 21, Atodlen 18, Deddf Cyllid 1998).<br>• Cofnodion cyflogres a chyflogau ar gyfer busnes anghorfforedig: pum mlynedd ar ôl 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn yr asesiad (adran 12B, Deddf Rheoli Trethi 1970).<br>• Cofnodion mewn perthynas â'r oriau a weithiwyd a thaliadau a wneir i weithwyr: chwe blynedd yn dechrau â'r diwrnod y mae'r cyfnod cyfeirnod tâl yn union ar ôl yr un y maent yn ymwneud ag ef yn dod i ben (adran 9, Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 a rheoliad 59, Rheoliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2015 (OS 2015/621) fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol (Diwygio) (OS 2021/329)).<br>• Cofnodion sy'n ofynnol gan Reoliadau Amser Gwaith 1998 (OS 1998/1833) (WTR):<br>• Eithriad amser gweithio: dwy flynedd o'r dyddiad y'u trefnwyd (rheoliadau 5 a 9, WTR).<br>• Cofnodion cydymffurfio: dwy flynedd ar ôl y cyfnod perthnasol (rheoliadau 5, 7 a 9, WTR).<br>• Cofnodion mamolaeth: tair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y daw'r cyfnod tâl mamolaeth i ben ynddi (rheoliad 26, Rheoliadau Tâl Mamolaeth Statudol (Cyffredinol) 1986 (OS 1986/1960)).<br>• Cofnodion damweiniau: o leiaf dair blynedd o'r dyddiad y gwnaed yr adroddiad (Atodlen 1, Rhan II, Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (OS 2013/1471)). |

| Cymal | Canllawiau |
|---|---|
| **Cymal 8** | O ystyried perthnasedd parhaus posibl rhai o'r cofnodion hyn, mewn rhai achosion efallai y bydd cyflogwr yn ystyried ei bod yn briodol cadw cofnodion am saith mlynedd ar ôl terfynu cyflogaeth, gan gofio risgiau cyfreitha. Mewn achosion eraill, mae blwyddyn arall wedi'i hychwanegu at y cyfnod cadw statudol er mwyn galluogi ffaith unrhyw anghydfod i ddod i sylw'r cyflogwr ar ôl i'r cyfnod statudol ddod i ben. Yn achos dogfennau recriwtio, o ystyried mai'r terfyn amser ar gyfer hawliadau tebygol yw'r terfyn amser o dri mis ar gyfer tribiwnlysoedd, mae estyniad i 12 mis yn caniatáu ar gyfer cymodi cyn hawlio ac i'r hawliad gyrraedd y cyflogwr ar ôl iddo gael ei gyflwyno i dribiwnlys cyflogaeth. |
| **Cymal 8 (tabl – cofnodion pensiynau)** | Mae'r adran hon wedi'i hanelu at y gofynion cadw cofnodion sy'n ymwneud â chofnodion pensiynau. Mae mwyafrif y cyfnodau cadw a argymhellir yn seiliedig ar isafswm cyfnodau cadw statudol. |
| **Cymal 8 (tabl – hysbysiadau optio i mewn ar gyfer cofrestru awtomatig a hysbysiadau ymuno / hysbysiadau optio allan)** | Rhaid cadw hysbysiadau optio i mewn, hysbysiadau ymuno a hysbysiadau optio allan yn y fformat gwreiddiol, er bod copïau o'r fformat gwreiddiol neu fersiynau wedi'u storio'n electronig yn dderbyniol. |

# **Polisi Enghreifftiol: Cadw data:** Canllawiau ar gyfer cadw data adnoddau dynol

# Gan ddefnyddio'r canllawiau hyn

* **Defnyddio’r templed hwn – mae'r templed yn cynnwys cromfachau sgwâr ac uwcholeuo i ddangos y meysydd y bydd angen i chi nodi gwybodaeth ynddynt a/neu ystyried a yw'r opsiynau a ddangosir yn berthnasol i'ch mudiad. Ni ddylai eich adolygiad fod yn gyfyngedig i’r meysydd hyn, gan y gall fod meysydd yn y templed nad ydynt yn berthnasol i’ch mudiad ac fe ddylid eu dileu.***

* **Mae'r templed hwn yn ymdrin â chyfnodau cadw ar gyfer data Adnoddau Dynol (AD). Gellir defnyddio dogfen o’r un fformat ar gyfer pob math gwahanol o ddata personol. Y peth pwysig yw nodi'r categorïau perthnasol o ddata personol a sefydlu am ba gyfnod y dylid eu cadw.***

* **Pan fyddwch wedi cwblhau eich canllawiau, dylech gael gwared ar yr holl gromfachau sgwâr a’r uwcholeuo.***

* **Ceir argymhellion am gyfnodau cadw ar gyfer data AD yn y canllawiau hyn. Nid cyngor cyfreithiol mohonynt ac ni ellir dibynnu arnynt at y diben hwnnw. Dylai eich mudiad geisio cyngor cyfreithiol ar wahân os yw’n ansicr am ba mor hir y dylid cadw data personol.***

# Am y canllawiau hyn

Mae’r polisi hwn yn darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (“UK GDPR”) a Deddf Diogelu Data 2018, y mae’n rhaid i [Enw’r mudiad] (“y mudiad”, “ni”, “ein”, “ninnau”) gydymffurfio â hwy.

**1. Y CANLLAWIAU HYN**

**1.1** Mae’r canllawiau hyn yn ategu polisi diogelu data [Mudiad].

**1.2** Bwriad y canllawiau yw sicrhau bod [Mudiad] yn prosesu data personol ar ffurf cofnodion cyflogaeth yn unol ag egwyddorion diogelu data personol, ac yn benodol:

**1.2.1** Dim ond at ddibenion penodedig, penodol, a dilys y dylid casglu data personol. Ni ddylid ei brosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

**1.2.2** Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol, ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran diben ei brosesu. Pan nad oes angen data personol mwyach at ddibenion penodol, caiff ei ddileu neu ei wneud yn ddienw yn unol â darpariaethau’r canllawiau hyn.

**1.2.3** Rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle bo angen, fod wedi'i gadw'n gyfredol. Rhaid ei gywiro neu ei ddileu yn ddi-oed pan fo'n anghywir.

**1.2.4** Ni ddylid cadw data personol ar ffurf adnabyddadwy am gyfnod hwy nag sy’n angenrheidiol at y dibenion y mae’r data’n cael ei brosesu ar eu cyfer.

**1.2.5** Rhaid diogelu data personol gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i amddiffyn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

**1.3** [TEITL] sy'n gyfrifol am oruchwylio'r canllawiau hyn. Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau am weithrediad y canllawiau i [TEITL].

**2. LLEOLIAD COFNODION CYFLOGAETH**

**2.1** [TEITL] sy'n dal y cofnodion cyflogaeth a gellir cysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'ch data personol.

**3. CADW GWYBODAETH YN GYFREDOL**

**3.1** Mae angen i ni sicrhau bod eich manylion personol yn gyfredol ac yn gywir.

**4.** Pan fyddwch yn dechrau gweithio i ni am y tro cyntaf byddwn yn cofnodi [eich enw] [cyfeiriad] [perthynas agosaf] [a] [manylion ffôn cyswllt]. Os bydd unrhyw un o'r rhain yn newid dylech [ddiweddaru eich manylion ar [MANYLION MYNEDIAD AR-LEIN] **NEU** roi gwybod i [TEITL]]. Byddwch yn cael eich gwahodd i adolygu a diweddaru data personol yn rheolaidd.

**5.** Bwriad y darpariaethau hyn yw ategu hawliau gwrthrych y data y cyfeirir atynt yn y Polisi Diogelu Data.

**6. EGWYDDORION CYFFREDINOL AR GADW A DILEU**

**6.1** Dull [Mudiad] o gadw cofnodion cyflogaeth yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn ac, yn benodol, sicrhau'r canlynol:

**6.1.1** Caiff cofnodion cyflogaeth eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i'ch hwyluso chi i weithio i ni.

**6.1.2** Caiff cofnodion cyflogaeth eu cadw'n ddiogel a chânt eu hamddiffyn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol. Pan fo'n briodol, byddwn yn defnyddio dulliau i wneud data'n anhysbys i atal unigolion rhag cael eu hadnabod.

**6.1.3** Pan fydd cofnodion yn cael eu dinistrio, boed yn gofnodion papur neu ar ffurf electronig, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu dileu yn ddiogel ac yn barhaol.

**7. CADW A DILEU DOGFENNAU RECRIWTIO**

**7.1** Rydym yn cadw data personol yn dilyn ymarferion recriwtio i ddangos, os oes angen, na wahaniaethwyd yn erbyn ymgeiswyr ar sail waharddedig a bod ymarferion recriwtio yn cael eu cynnal mewn ffordd deg a thryloyw.

**7.2** Mae data personol sy'n cael ei gasglu gennym yn ystod y broses recriwtio yn debygol o gael ei gadw am [ddeuddeng mis] o'r adeg y cyfathrebir canlyniad yr ymarfer recriwtio sy'n ystyried y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hawliadau ac ar gyfer hawliadau sydd i'w derbyn gennym ni.

**7.3** Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeiswyr llwyddiannus yn cael ei throsglwyddo i'w cofnod cyflogaeth gyda ni. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y berthynas waith a, phan fo'n berthnasol, yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**7.4** Yn dilyn ymarfer recriwtio bydd gwybodaeth, ar ffurf papur ac electronig, yn cael ei chadw gan [TEITL]. Bydd y wybodaeth honno'n cael ei dinistrio yn unol â'r canllawiau hyn.

## 8. CADW A DILEU COFNODION CYFLOGAETH

**8.1** Mae [Mudiad] yn ystyried y cyfnodau cadw a argymhellir ar gyfer cofnodion cyflogaeth penodol a nodir mewn deddfwriaeth, y cyfeirir atl yn y tabl isod. Fodd bynnag, mae hefyd yn ystyried y risg gyfreithiol a gall gadw cofnodion am hyd at saith mlynedd (a hwy mewn rhai achosion) ar ôl i'ch cyflogaeth neu waith gyda ni ddod i ben.

| Math o gofnod cyflogaeth | Cyfnod cadw |
|---|---|
| **Cofnodion recriwtio** | |
| Gallai'r rhain gynnwys:<br>Ffurflenni cais ar-lein wedi'u cwblhau neu CVs.<br><br>Ffurflenni monitro cyfle cyfartal.<br><br>Ymarferion neu brofion asesu.<br>Nodiadau o gyfweliadau ac ymarferion llunio rhestr fer.<br><br>Gwiriad cyn cyflogaeth o fanylion a ddarparwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus. Er enghraifft, gwirio cymwysterau a derbyn geirda. (Gall y rhain gael eu trosglwyddo i ffeil cyflogaeth ymgeisydd llwyddiannus.)<br><br>Gwiriad cofnodion troseddol: (Gall y rhain gael eu trosglwyddo i ffeil cyflogaeth ymgeisydd llwyddiannus os ydynt yn berthnasol i'r berthynas barhaus.) | Ddeuddeg mis ar ôl hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad yr ymarfer recriwtio. |
| **Gwiriadau mewnfudo** | Dair blynedd ar ôl terfynu cyflogaeth. |
| **Contractau** | |
| Gallai'r rhain gynnwys:<br>Manylion ysgrifenedig cyflogaeth.<br><br>Contractau cyflogaeth neu gontractau eraill.<br><br>Newidiadau i delerau ac amodau wedi'u dogfennu. | Tra bod y gyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r contract ddod i ben. |
| **Cydgytundebau** | |
| Cydgytundebau gweithlu a chytundebau blaenorol a allai effeithio ar weithwyr presennol. | Bydd unrhyw gopi o gydgytundeb perthnasol a gedwir ar gofnod cyflogai yn aros tra bydd cyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |
| **Cofnodion cyflogres a chyflogau** | |
| Cofnodion cyflogres a chyflogau<br>Manylion goramser.<br>Bonysau.<br>Treuliau.<br>Buddion mewn nwyddau. | Rhaid cadw'r rhain am o leiaf dair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y maent yn berthnasol iddi. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd posibl i anghydfodau cyflog byddant yn cael eu cadw am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |

| Math o gofnod cyflogaeth | Cyfnod cadw |
|---|---|
| **Cofnodion cyflogres a chyflogau** | |
| Manylion banc cyfredol | Bydd manylion banc yn cael eu dileu cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd cyflogaeth ar ôl i'r taliadau terfynol gael eu gwneud. |
| Cofnodion TWE | Rhaid cadw'r rhain am o leiaf dair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y maent yn berthnasol iddi. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd posibl i anghydfodau cyflog byddant yn cael eu cadw am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |
| [Cofnodion cyflogres a chyflogau ar gyfer cwmnïau] neu<br><br>[Cofnodion cyflogres a chyflogau ar gyfer cymdeithasau anghorfforedig] | [Rhaid cadw'r rhain am chwe blynedd o ddiwedd y flwyddyn ariannol y gwnaed taliadau ynddi. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd posibl i anghydfodau cyflog byddant yn cael eu cadw am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben].<br><br>Neu<br><br>[Rhaid cadw'r rhain am bum mlynedd ar ôl 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn yr asesiad. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd posibl i anghydfodau cyflog byddant yn cael eu cadw am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben]. |
| Cofnodion mewn perthynas ag oriau a weithiwyd a thaliadau a wnaed i weithwyr | Rhaid cadw'r rhain am dair blynedd gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r cyfnod cyfeirnod tâl yn union ar ôl yr un y maent yn cyfeirio ato i ben. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd posibl i anghydfodau cyflog byddant yn cael eu cadw am saith mlynedd ar ôl i'r berthynas waith ddod i ben. |
| Teithio a chynhaliaeth. | Tra bod y gyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |
| Cofnod o flaensymiau ar gyfer tocynnau tymor a benthyciadau i weithwyr | Tra bod y gyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |
| **Cofnodion Personél** | |
| Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>Cymwysterau/tystlythyrau.<br><br>Caniatadau ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol.<br><br>Cofnodion gwyliau blynyddol.<br><br>Adroddiadau asesu blynyddol.<br><br>Gweithdrefnau disgyblu.<br><br>Gweithdrefnau cwyno.<br><br>Ffurflenni enwebu a dirymu buddiolwyr ar farwolaeth yr unigolyn.<br><br>Ymddiswyddiad, terfynu cyflogaeth ac ymddeoliad. | Tra bod y gyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |

| **Math o gofnod cyflogaeth** | **Cyfnod cadw** |
|---|---|
| **Cofnodion mewn cysylltiad ag amser gweithio** | |
| Optio allan o amser gweithio | Dair blynedd o'r dyddiad yr ymrwymwyd iddynt. |
| Cofnodion i ddangos cydymffurfiaeth, gan gynnwys:<br><br>Taflenni amser ar gyfer gweithwyr sydd wedi optio allan.<br><br>Cofnodion asesu iechyd ar gyfer gweithwyr nos. | Dair blynedd ar ôl y cyfnod perthnasol. |
| **Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu a Rhieni a Rennir ("cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel cofnodion absenoldeb teuluol").** | |
| Mae'r rhain yn cynnwys:<br>Manylion taliadau a wnaed yn ystod absenoldeb teuluol<br><br>Dyddiadau absenoldeb teuluol<br><br>Cyfnod heb unrhyw daliad am absenoldeb teuluol<br><br>Tystysgrifau mamolaeth yn dangos wythnos ddisgwyliedig y cyfnod esgor | Bedair blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y daw'r cyfnod tâl mamolaeth i ben ynddi. |
| **Cofnodion damweiniau** | |
| Crëir y rhain ar gyfer unrhyw ddamwain, marwolaeth neu anaf hysbysadwy mewn cysylltiad â'r gwaith. | Am o leiaf bedair blynedd o'r dyddiad y gwnaed yr adroddiad. |
| **Gwybodaeth/cofnodion meddygol** | |
| Mae'r rhain yn cynnwys:<br>Holiaduron meddygol<br><br>Cofnodion o absenoldeb salwch gan gynnwys tystysgrifau meddygol<br><br>Gwiriadau meddygol blynyddol<br><br>Adroddiadau meddygol a gafwyd gan iechyd galwedigaethol | Tra bod y gyflogaeth yn parhau ac am saith mlynedd ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. |
| **Cofnodion pensiwn** | |
| Enw a chyfeiriad y cynllun neu ddarparwr y cynllun cofrestru awtomatig a ddefnyddir i gydymffurfio â dyletswyddau'r cyflogwr. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Cyfeirnod cynllun pensiwn y cyflogwr. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Tystiolaeth bod y cynllun yn cydymffurfio â phrofion ansawdd statudol cofrestru awtomatig. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |

| Math o gofnod cyflogaeth | Cyfnod cadw |
|---|---|
| **Cofnodion pensiwn** | |
| Enw, rhif YG, dyddiad geni a dyddiad cofrestru awtomatig yr holl ddeiliaid swyddi sydd wedi'u cofrestru'n awtomatig (a manylion cyfatebol ar gyfer deiliaid swyddi anghymwys a gweithwyr â hawl sydd wedi optio i mewn neu ymuno). | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Tystiolaeth o enillion a chyfraniadau deiliaid swyddi. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Cyfraniadau sy'n daladwy gan gyflogwr mewn perthynas â deiliaid swyddi a dyddiadau pan dalwyd cyfraniadau o'r fath i'r cynllun. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Pe bai cyfnod gohirio cofrestru awtomatig yn cael ei ddefnyddio, byddai cofnodion gweithwyr y rhoddwyd hysbysiad gohirio iddynt yn cynnwys enw llawn, rhif YG a dyddiad rhoi'r hysbysiad gohirio. | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Hysbysiadau optio i mewn ar gyfer cofrestru awtomatig a hysbysiadau ymuno (fformat gwreiddiol). | Am chwe blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Hysbysiadau optio allan (fformat gwreiddiol). | Am bedair blynedd yn dechrau o'r diwrnod y mae'n rhaid cadw'r cofnod gyntaf. |
| Os yw'r cyflogwr (neu os oedd y cyflogwr) yn gyflogwr sy'n noddi cynllun pensiwn galwedigaethol, unrhyw ddogfen sy'n ymwneud ag arian a dderbyniwyd gan neu sy'n ddyledus i'r cynllun, buddsoddiadau neu asedau a ddelir gan y cynllun, taliadau a wnaed gan y cynllun, contractau i brynu blwydd-dal oes mewn perthynas ag aelod o'r cynllun a dogfennau sy'n ymwneud â gweinyddu'r cynllun. | Ar gyfer y flwyddyn dreth y maent yn berthnasol iddi a'r 6 blynedd ddilynol. |
| Gwybodaeth yn ymwneud â cheisiadau am fudd-daliadau ymddeoliad cynnar ar sail salwch, gan gynnwys adroddiadau meddygol. | Tra bod hawl yn parhau ac am gyfnod o 15 mlynedd ar ôl i fudd-daliadau beidio â chael eu talu. |
| Ffurflenni enwebu a dirymu buddiolwyr ar farwolaeth yr unigolyn. | Tra bod hawl yn parhau ac am gyfnod o 15 mlynedd ar ôl marwolaeth yr aelod a'i fuddiolwyr. |

# **Asesiad Effaith** Diogelu Data

# Asesiad Effaith Diogelu Data ( AEDD)

Mae Erthygl 35 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) yn cyflwyno gofyniad ffurfiol i fudiadau, yn eu rôl fel rheolwyr data, gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data (AEDD) cyn ymgymryd ag unrhyw waith prosesu sy'n peri risg benodol i breifatrwydd yn rhinwedd ei natur, cwmpas neu ddibenion.

Dylid meddwl am gynnal AEDD fel proses. Mae'r ddogfen safonol hon yn dempled i'w ddefnyddio i ddwyn ynghyd wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses AEDD, i ddogfennu canlyniad yr AEDD ac i gofnodi'r camau i'w cymryd o ganlyniad i'r AEDD.

Wrth gwblhau'r AEDD dylech gwblhau'r adrannau casglu ffeithiau yn gyntaf cyn cwblhau'r adrannau dadansoddi (yn benodol, Adran 7), a'r crynodeb gweithredol (Adran 1) yw'r adran olaf i'w chwblhau.

Dylech ymgynghori â [    ] ein [swyddog (SDD) / arweinydd diogelu data] cyn cwblhau'r ddogfen hon. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd gyfeirio at ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gynnal asesiadau effaith diogelu data. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i ni rannu'r AEDD gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/accountability-and-governance/data-protection-impact-assessments-dpias/

“

Dim ond y derbynnydd ddylai ddefnyddio'r canllaw hwn ac ni ddylid ei drosglwyddo i drydydd parti heb ein caniatâd".

Dylech asesu'r risg o ran preifatrwydd o safbwynt gwrthrych y data. Un o ystyriaethau allweddol yr AEDD yw penderfynu beth sydd angen ei wneud i gadw data personol gwrthrych y data yn ddiogel. Pan fo risg i wrthrych y data mae'n debygol y bydd risg i'r rheolydd, yn enwedig risgiau cydymffurfio cyfreithiol a rheoleiddiol. Er y dylai AEDD ymwneud yn bennaf â risgiau'r fenter i wrthrychau'r data, dylai'r cwmpas hefyd ystyried risgiau i'r rheolydd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cymdeithas yn gyffredinol. O safbwynt y mudiad, dylid ystyried unrhyw risgiau ariannol, cyfreithiol, risgiau i enw da a risgiau perthnasol eraill fel rhan o'r broses hon.

Canllaw yn unig yw'r wybodaeth yn y blychau hyn a dylid ei dileu o'r ddogfen derfynol.

**Hanes y ddogfen:**

Dogfen fyw yw'r AEDD hwn i gofnodi'r dadansoddiad a wnaed, y penderfyniadau a wnaed a'r camau i'w cymryd mewn perthynas â menter. Dylid ei diweddaru'n rheolaidd ac felly mae'n cynnwys tabl rheoli fersiynau o'r ddogfen. Gall fod yn synhwyrol enwebu unigolyn fel perchennog y ddogfen, fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am yr AEDD ac a fydd yn cadw cofnod o'r holl unigolion y gofynnwyd iddynt adolygu'r AEDD gyda manylion y fersiynau a adolygwyd.

**Hanes y ddogfen:**

| Rhif y fersiwn | Crynodeb o'r newid | Adolygydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 1. Crynodeb gweithredol

Dylai'r adran hon gofnodi ffeithiau allweddol yr asesiad yn ogystal â'r casgliadau y daethpwyd iddynt ar lefel uchel. Dylai'r adran gynnwys:

- Disgrifiad lefel uchel o'r fenter.
- Crynodeb o'r cwmpas prosesu.
- Crynodeb o'r dibenion y bydd prosesu'n digwydd ar eu cyfer.
- Crynodeb o'r buddion a fwriedir ar gyfer gwrthrychau'r data, trydydd partïon a'r rheolydd data.
- Crynodeb o'r rhesymeg pam mae angen AEDD.

Dylid cwblhau'r blwch "Crynodeb o'r rhesymeg pam mae angen AEDD" cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, dylai gweddill yr Adran 1 hon fod ymhlith y darnau olaf o'r AEDD i'w cwblhau. Sylwch, os deuir i'r casgliad nad oes angen AEDD, efallai y bydd rheolwyr yn dal i ddymuno cofnodi'r ffaith eu bod wedi ystyried AEDD ac wedi penderfynu nad oedd ei angen o dan yr amgylchiadau, gyda'r rhesymeg pam y daethant i'r casgliad hwn.

**Disgrifiad lefel uchel o'r fenter:**
[Crynodeb o Adran 3 yr AEDD.]

**Crynodeb: cwmpas prosesu:**
[Crynodeb o Adran 5 yr AEDD.]

**Crynodeb o'r dibenion y bydd y prosesu'n digwydd ar eu cyfer:**
[Crynodeb o Adran 8 yr AEDD.]

**Crynodeb o'r buddion a fwriedir ar gyfer gwrthrychau'r data, trydydd partïon a'r mudiad.**
[Crynodeb o Adran 8 yr AEDD.]

**Crynodeb o'r rhesymeg pam mae angen AEDD:**
[Crynodeb o Adran 3 yr AEDD.]

## 2. Gwybodaeth weinyddol

Mae'r adran hon yn nodi pwy sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r fenter a gwybodaeth logistaidd allweddol arall.

Os oes unrhyw randdeiliaid allweddol eraill, dylech ystyried nodi'r rhain yma. Ystyriwch hefyd a oes angen personoli'r adran hon i gyfeirio at unrhyw brosesau rheoli risg penodol sydd gan unrhyw un o'r rhanddeiliaid hynny yn ogystal ag at yr unigolyn/pwyllgor sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniadau ynghylch pa risgiau sy'n dderbyniol i'r mudiad.

**Enw'r Fenter:**
[Menter/Enw'r Fenter]

**Enw a rôl y mudiad sy'n cwblhau'r AEDD:**
[Rheolydd/Prosesydd enw'r mudiad]

**Maes sy'n gyfrifol am y Fenter:**
[Er enghraifft, TG, AD, Cyllid, Codi Arian]

**Uwch swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am y Fenter:**

Uwch swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am y Fenter:

Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Ffôn symudol/rhif uniongyrchol:
Rheolwr prosiect y fenter:

Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Ffôn symudol/rhif uniongyrchol:
Swyddog Diogelu Data:

Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Ffôn symudol/rhif uniongyrchol:

Rhanddeiliaid eraill: Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Ffôn symudol/rhif uniongyrchol:

Rhanddeiliaid eraill: Enw:
Cyfeiriad e-bost:
Ffôn symudol/rhif uniongyrchol:

Trydydd partïon sy'n ymwneud â/sy'n gysylltiedig â'r Fenter
[Mae'r rhain fel y'u rhestrir yn Adran 10]/[Dim]

Dogfennau perthnasol
[Nodwch y dogfennau perthnasol ac ystyriwch gynnwys copïau fel Atodiad.]

[Menter/Achos busnes y fenter]

[Dogfennau dylunio]

[AEDD blaenorol]

[AEDD yn ymwneud â gweithrediadau prosesu cysylltiedig]

[Dogfennau i gyfeirio atynt: Polisi preifatrwydd, Deddfwriaeth berthnasol, Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Canllawiau WP29 AEDD, Canllawiau Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd, Codau Ymddygiad, Polisïau eraill: [er enghraifft, Diogelwch gwybodaeth, Cadw data, AD, Marchnata, Cyllid, dogfen bolisi briodol ar gyfer categorïau arbennig o ddata personol ac euogfarnau troseddol].

## 3. Trosolwg

Dylai'r adran hon roi cyd-destun a gwybodaeth i'r darllenydd ar sut mae'r AEDD yn cyd-fynd â'r Fenter. Dylai ddarparu disgrifiad lefel uchel o'r Fenter ac egluro sut mae cwmpas yr AEDD yn berthnasol i'r Fenter. Nodwch gyd-destun y Fenter – gall fod yn beilot neu'n gam o brosiect neu raglen. Efallai hefyd y bydd gweithgareddau prosesu cysylltiedig yn berthnasol ac, os felly, dylid crybwyll y rhain.

Dylid defnyddio'r adran hon hefyd i ddisgrifio paramedrau allweddol yr AEDD fel ei bod yn glir beth sydd o fewn y cwmpas a beth sydd wedi'i eithrio (efallai i'w wneud o dan AEDD ar wahân). Sylwer y gall paramedrau allweddol yr AEDD fod yn wahanol i baramedrau allweddol y Fenter.

Yn yr adran hon dylech hefyd nodi pam y cynhaliwyd AEDD.

Os yw'r AEDD yn cwmpasu setiau lluosog o weithrediadau prosesu, nodwch nhw yma a chofnodwch y rhesymeg pam yr ystyrir bod y gweithrediadau prosesu yn debyg.

**Disgrifiad lefel uchel o'r Fenter:**
[Yn yr adran hon cynhwyswch ddisgrifiad lefel uchel o'r Fenter, fel ei bod yn hawdd wedyn egluro cwmpas yr AEDD yng nghyd-destun y fenter yn ei chyfanrwydd.]

**Y berthynas rhwng yr AEDD a'r Fenter:**
[Eglurwch gwmpas yr AEDD yng nghyd-destun y fenter yn ei chyfanrwydd.]

**Cyd-destun:**
[Ystyriwch:
Peilot
Cam
Gweithgareddau prosesu sy'n gysylltiedig â'r Fenter / Rhaglen]

**Paramedrau allweddol (er enghraifft, ffiniau AEDD). Beth sydd o fewn y cwmpas ac sydd wedi'i eithrio o'r cwmpas?:**
[Gallai fod yn ddefnyddiol disgrifio ffiniau'r AEDD a'r hyn a gwmpesir gan yr asesiad. Sylwch y gallai hyn fod yn wahanol i ffin y Fenter.]

**Rhesymeg pam mae angen AEDD:**
[Mae prosesu yn risg uchel, [esboniwch pam].]

**Setiau lluosog o weithrediadau prosesu data:**
[Os yw'r AEDD yn cwmpasu setiau lluosog o weithrediadau prosesu data, rhowch esboniad pellach yma.]

## 4. Ymgynghori

Dylai'r adran hon grynhoi'r cyngor a'r mewnbwn gan yr holl randdeiliaid a phartïon â diddordeb yr ymgynghorwyd â hwy mewn perthynas â'r AEDD. Bydd hyn yn cynnwys y maes swyddogaethol neu'r uned fusnes sy'n cynnal y AEDD a'r SDD (os oes un).

Bydd hefyd yn cynnwys cyngor a mewnbwn gwrthrychau'r data, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn ogystal ag arbenigwyr proffesiynol fel cyfreithwyr, arbenigwyr TG, arbenigwyr diogelwch, cymdeithasegwyr ac arbenigwyr moeseg.

**Cyngor y Swyddog Diogelu Data:**
[Cyngor a gafwyd gan y SDD (Cyf Atodiad D)]

**Mewnbwn swyddogaethau busnes penodol:**
[Cofnodwch gyngor/mewnbwn swyddogaethau busnes penodol sy'n rhanddeiliaid/sydd â diddordeb yn y Fenter.]

**Mewnbwn gwrthrychau'r data a/neu eu cynrychiolwyr:**
[Eglurwch sut y gofynnwyd am y safbwyntiau. Er enghraifft, wedi'u cael drwy astudiaethau, holiaduron, trafodaeth gyda chynrychiolwyr gwrthrychau'r data a beth oedd y safbwyntiau.]

[Penderfyniad terfynol - os yw'n wahanol i farn gwrthrych y data i gynnwys y rhesymeg dros fwrw ymlaen.]

[Mae cyfiawnhad dros beidio â cheisio mewnbwn gan gwrthrychau'r data yn cynnwys er enghraifft, peryglu cyfrinachedd cynlluniau busnes, ei fod yn anghymesur, neu'n anymarferol.]

**Mewnbwn arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill â diddordeb:**
[Cofnodwch gyngor/mewnbwn arbenigwyr annibynnol o wahanol broffesiynau (fel cyfreithwyr, arbenigwyr TG, arbenigwyr diogelwch) yn ogystal â rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y Fenter.]

**Ymgynghori â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth:**
[Os bydd angen ymgynghori, rhowch grynodeb o'r allbwn a'r penderfyniadau a wnaed. Cynhwyswch unrhyw gyngor gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth fel atodiad i'r AEDD.]

## 5. Cwmpas

Dylid defnyddio'r adran hon i fanylu ar y ffeithiau am y Fenter. Bydd y rhan fwyaf o AEDD yn cynnwys neu'n cael eu sbarduno gan gyflwyniad systemau neu dechnoleg newydd neu newidiadau iddynt.

Fodd bynnag, edrychwch yn ehangach na’r dechnoleg yn unig ac ystyriwch yr holl elfennau a allai fod yn rhan o’r Fenter gan gynnwys y bobl a’r prosesau.

Dylid nodi’r math(au) o wrthrychau data sy’n gysylltiedig – mae’n bwysig bod yn glir, yn yr ystyr ffeithiol, pa fath o ddata sy’n cael ei ystyried.

**Disgrifiad:**
[Disgrifiad o'r Fenter gan gynnwys galluoedd / ymarferoldeb technegol]
Asedau/technoleg sy’n ymwneud â phrosesu’r data personol:

**a.** Caledwedd
**b.** Meddalwedd
**c.** Rhwydweithiau
**d.** Pobl
**e.** Papur
**f.** Sianel(i) Trosglwyddo Papur
**g.** Dyfeisiau Symudol
**h.** Cwcis
**i.** Arall, fel y cwmwl, warysau data ac ati

**Cyd-destun busnes:**
[Yn aml mae'n ddefnyddiol esbonio cefndir/cyd-destun busnes y Fenter. Bydd hyn hefyd o gymorth wrth drafod amcanion a manteision y prosesu.]

**Mathau o wrthrychau data:**

**Amcanion a chwmpas y fenter:**
[I’w gadarnhau – gellir cyfuno’r adran hon â’r cyd-destun Busnes uchod.]

## 6. Disgrifiad o'r Prosesu

Yr adran hon yw craidd yr AEDD. Dylid adeiladu ar y ffeithiau a gasglwyd ac a ddogfennwyd yn gynharach yn yr AEDD a chanolbwyntio ar y mathau o ddata dan sylw a natur y gweithrediadau prosesu. Gall fod yn ddefnyddiol creu map llif data fel rhan o'r elfen hon. Dylid cynnwys y map llif data mewn atodiad i'r AEDD.

Wrth ddisgrifio gweithrediadau prosesu data mae'n ddefnyddiol ystyried:

- Y mathau o ddata personol.
- Ffynonellau'r data personol (er enghraifft, a yw'n dod o systemau mewnol/allanol, rhestrau a brynwyd neu wedi'u casglu'n uniongyrchol gan wrthrych y data).
- Hyd ac amlder prosesu.
- Y cyfeintiau prosesu.
- Y dull a ddefnyddiwyd/a ddefnyddir i sicrhau'r data lleiaf posibl.

**Map(iau) llif data:**
[Gweler Atodiad A.
Pwyntiau mynediad ac ymadael data, lleoliad, categorïau defnyddwyr, categorïau gwrthrychau'r data]

**Disgrifiad o'r gweithrediadau prosesu arfaethedig:**
[I'w gadarnhau – gellir cyfuno'r adran hon â'r Disgrifiad yn yr adran Cwmpas, Adran 5 uchod]

**Mathau o ddata personol:**
[Nodwch gategorïau/mathau o ddata personol a gasglwyd]

**Ffynonellau'r data personol:**
[- Bwydo o systemau (mewnol/allanol)
- - Wedi'i gasglu'n uniongyrchol o wrthrychau'r data]

**Hyd ac amlder prosesu:**

**Cyfeintiau prosesu:**
[Symiau – Gwrthrychau'r data a chofnodion
Symiau rhai mathau o wrthrychau data (fel plant; unigolion agored i niwed) Cyfaint – defnyddwyr a math
Math o ddefnyddwyr – mewnol, allanol (fel cwmnïau cysylltiedig, gwerthwyr a phartneriaid cynghrair)]

**Lleihau data:**
[Nodwch yr ystyriaethau a roddir i leihau data (fel rhai mathau o wrthrychau data nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwmpas, lleihau'r mathau o ddata/meysydd a gesglir, lleihau llifau data, y technegau dad-adnabod a ddefnyddir).]

# 7. Sail Prosesu

Dyma adran allweddol arall sy'n mynd at wraidd y gofynion o dan Erthygl 35(7). Dylai'r rheolydd data fod yn cynnal dau asesiad allweddol:

- Asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd. Mae hwn yn asesiad o angenrheidrwydd a chymesuredd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â diben(ion) y prosesu (Diben(ion)).
- Asesiad hawliau a rhyddid. Dyma asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data.

Wrth gwblhau'r asesiad hawliau a rhyddid y prif bryder yw'r hawl i breifatrwydd ond mae yna hefyd hawliau sylfaenol eraill (gan gynnwys rhyddid i lefaru, rhyddid meddwl, rhyddid i symud, gwahardd gwahaniaethu, hawl i ryddid, cydwybod a chrefydd) a dylid rhoi sylw i bob un o'r rhain.

Mae hefyd yn bwysig rhoi sylw i ofynion prosesu teg a thryloyw. Dylid cynnwys copi o hysbysiad(au) preifatrwydd y rheolydd data (neu ddolen ato) mewn atodiad i'r AEDD.

**Prosesu cyfreithlon**
Asesiad o angenrheidrwydd a chymesuredd (asesu angenrheidrwydd a chymesuredd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â diben(ion) y prosesu: [Cyfyngiad diben:

- Diben(ion) penodol, eglur a chyfreithlon
- Cyfreithlondeb prosesu
- Seiliau
- Cydsyniad
- Buddiannau dilys

1. Prawf cydbwyso – asesu a yw buddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrychau'r data yn drech na buddiannau dilys
2. Digonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
3. Hyd storio cyfyngedig

- Mesurau sy'n cyfrannu at hawliau gwrthrychau'r data]

**Asesiad hawliau a rhyddid (asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data):**

**Prosesu teg:**
[Gofynion prosesu teg: 1Gwybodaeth a ddarperir i wrthrych y data (hysbysiad preifatrwydd) 2Defnyddio cwcis]

## 8. Diben(ion) Prosesu; Buddiannau a Risgiau

Bwriad yr adran yw canolbwyntio ar y diben y mae data personol yn cael ei brosesu ar ei gyfer ac asesu'r manteision a fwriedir a'r risgiau. Nid yw GDPR y DU yn diffinio “risg uchel” ond mae’n gofyn bod asesiad yn cael ei gynnal “pan fo math o brosesu yn benodol yn defnyddio technolegau newydd, ac o ystyried natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu, yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid pobl naturiol”.

Dylid asesu unrhyw un o’r categorïau prosesu canlynol yn fanylach i sefydlu a yw prosesu o’r fath yn risg uchel:

- Prosesu awtomataidd (gan gynnwys proffilio).
- Gwerthuso neu sgorio (gan gynnwys proffilio neu ragfynegi).
- Gwneud penderfyniadau awtomataidd gydag effaith gyfreithiol (neu debyg).
- Prosesu data ar raddfa fawr.
- Prosesu data sensitif neu ddata o natur hynod bersonol.
- Monitro ardal(oedd) sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn systematig.
- Creu neu ddefnyddio proffiliau personol.
- Paru/cyfuno setiau data.
- Prosesu mewn perthynas â gwrthrychau data sy'n agored i niwed.
- Defnydd arloesol o dechnoleg neu gymhwyso technolegau newydd neu atebion arloesol.
- Prosesu sydd, ynddo’i hun, yn “atal gwrthrychau’r data rhag arfer hawl neu ddefnyddio gwasanaeth neu gontract”

Fel rhan o'r asesiad, dylech nodi'r manteision a allai ddeillio o'r prosesu. Wrth wneud hynny, ystyriwch y sefyllfa mewn modd cyfannol. Gallai'r buddion gynnwys: (i) unigolion (gwrthrychau data a defnyddwyr); (ii) grwpiau o unigolion; a (iii) mudiadau fel y rheolydd data/trydydd partïon; a/neu (iv) y gymdeithas ehangach.

Ystyriwch hefyd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosesu, gan gynnwys i wrthrychau'r data, y rheolydd data ei hun ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill. Dylid nodi'r math o risg, bygythiadau posibl a ffynonellau risg, y tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd ac effaith y risg a'r math o niwed. Yn yr adran hon, cynhwyswch unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â bwrw ymlaen â'r Fenter.

Yn olaf, ond yn hollbwysig, ystyriwch yr opsiynau lliniaru risg hefyd. Cofiwch y bydd ansawdd a digonolrwydd y camau lliniaru risg y gellir eu cymryd yn effeithio ar yr angen i ymgynghori â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Diben(ion) prosesu**
Prosesu awtomataidd (gan gynnwys proffilio)
Gwerthuso neu sgorio (gan gynnwys proffilio neu ragfynegi)
Gwneud penderfyniadau awtomataidd gydag effaith gyfreithiol (neu debyg)
Prosesu data ar raddfa fawr
Data neu ddata sensitif o natur hynod bersonol
Monitro ardal sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn systemig

Creu neu ddefnyddio proffiliau personol Paru/cyfuno setiau data
Gwrthrychau data sy'n agored i niwed
Defnydd arloesol o dechnoleg neu gymhwyso technolegau newydd neu atebion arloesol.
Prosesu sydd, ynddo'i hun, yn "atal gwrthrychau'r data rhag arfer hawl neu ddefnyddio gwasanaeth neu gontract"
Arall [marchnata, dadansoddeg]

**Buddion**
Unigolyn/Unigolion [Gwrthrychau'r data, defnyddwyr]
Grŵp o unigolion
Mudiad(au) [Rheolydd data, trydydd partïon, Cymdeithas]

**Risgiau**
[Mathau o risgiau
Bygythiadau/ffynonellau risg posibl (Datganiad 90) Tebygolrwydd o risg
Effaith os bydd risg/math o niwed/difrifoldeb y niwed
Opsiynau lliniaru risg ac effaith ar risg]

## 9. Trosglwyddiadau data y tu allan i'r DU

Elfen o'r AEDD yw ystyried unrhyw drosglwyddiadau posibl o ddata o'r DU. Fel man cychwyn, mae'n ddefnyddiol nodi'r gwledydd allweddol y bydd y data yn eu "cyffwrdd". Ystyriwch y gwledydd lle mae gwrthrychau'r data wedi'u lleoli yn ogystal â'r gwledydd y mae unrhyw ddefnyddwyr wedi'u lleoli. Nodwch hefyd pan fo gweithgareddau prosesu allweddol yn digwydd. Er enghraifft, a yw'r prosesu'n cynnwys defnyddio'r cwmwl? Ble mae'r storio, copïau wrth gefn ac adfer ar ôl trychineb yn digwydd? Ble mae'r cymorth a'r cynnal a chadw yn digwydd (boed cymorth technoleg neu gymorth i gwsmeriaid)? Os oes nifer o wledydd yn gysylltiedig â hyn yna mae angen ystyried eich trefniadau trosglwyddo data yn rhyngwladol. Mae'r amodau ar gyfer trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU a gwneud trosglwyddiad cyfyngedig o'r data i'w gweld ym Mhennod V GDPR y DU.

Yn y bôn, mae dau lwybr ar gael i fudiadau sy'n ceisio gwneud trosglwyddiad cyfyngedig o'r DU: naill ai gwneir y trosglwyddiad i wlad sy'n destun rheoliadau digonolrwydd y DU neu mae'r partïon wedi rhoi mecanwaith diogelu trosglwyddo arall ar waith i sicrhau bod y data'n parhau'n ddiogel.

Dylid ceisio cyngor cyfreithiol os ydych yn ansicr a ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU.

| | |
|---|---|
| Crynodeb gwlad/gwledydd: | |
| Lleoliad gwrthrychau'r data: | |
| Lleoliad y defnyddwyr: | [Ystyriwch:<br>Gweithwyr<br>Contractwyr<br>Trydydd Partïon] |
| Lleoliad lletya: | |
| Cymorth a chynnal a chadw: | [Ystyriwch cymorth a chynnal a chadw cymwysiadau ond hefyd cymorth cwsmeriaid] |
| Dogfennau sy'n benodol i wlad/gwledydd: | [Gweler yr Atodiad e.e. Hysbysiadau preifatrwydd iaith leol] |
| Trefniadau trosglwyddo data yn rhyngwladol: | |
| Enw a rôl y partïon sy'n derbyn y data personol: | |
| Rhesymau dros drosglwyddo: | [Rheolau Corfforaethol Rhwymol<br>Cymalau cytundebol safonol y DU (IDTA neu Adendwm)<br>Arall] |

## 10. Datgeliad i Drydydd Partïon

Mae'n bwysig nodi unrhyw drydydd parti, boed yn rheolwyr data neu'n broseswyr data eraill, a fydd yn trin y data personol. Ystyriwch y cwestiynau canlynol fel rhan o'r dadansoddiad ar gyfer pob derbynnydd:

- Ble mae'r derbynnydd wedi'i leoli?
- Beth yw rôl y derbynnydd (rheolydd neu brosesydd) o ran y data?
- Pa ddata sydd i'w ddatgelu iddynt a pham?
- A oes angen datgelu'r holl ddata a nodwyd i'w datgelu? (Mewn geiriau eraill, pa gamau lleihau data y gellir eu cymryd?)
- Pa gytundebau sydd angen eu rhoi ar waith gyda'r derbynwyr?
- A oes angen AEDD ar wahân?
- Pa drefniadau monitro/rheoli contract sydd angen eu rhoi ar waith?

**Derbynwyr:**
Enw:
Cyfeiriad:
Swydd:
Data i'w datgelu
Rôl y derbynnydd Rhesymau dros ddatgelu Cytundebau
Angen AEDD ar wahân?
Trefniadau monitro/rheoli contractau

## 11. Diogelwch Prosesu

Yn yr adran hon dylech roi sylw i'r mesurau technegol a sefydliadol, gan gynnwys mesurau diogelwch ymarferol a mesurau diogelwch technegol, i sicrhau bod y data'n cael ei gadw'n ddiogel.

Dylid ystyried mesurau ymarferol fel trefniadau rheoli hunaniaeth a mynediad, hyfforddiant, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth, trefniadau diwydrwydd dyladwy trydydd parti a threfniadau rheoli a monitro contractau trydydd parti.

Ystyriwch yr ystod o fesurau diogelwch technegol y gellir eu gweithredu fel amgryptio, ffugenwi a dilysu dau ffactor. Sicrhewch fod trefniadau ar gyfer hysbysiadau tor diogelwch data wedi'u hystyried.

Dylid cofnodi eitemau fel y camau a gymerwyd i ddad-adnabod data, trefniadau ar gyfer dinistrio data a data wrth gefn a threfniadau adfer ar ôl trychineb. Cynhwyswch gofnodion mewn perthynas â chaniatadau, hysbysiadau preifatrwydd, mapiau llif data a chymeradwyaethau.

**Mesurau diogelu ymarferol:**
[Enghreifftiau: Trefniadau rheoli hunaniaeth a mynediad Enghreifftiau: Hyfforddiant, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth Enghreifftiau: Trefniadau diwydrwydd dyladwy o ran trydydd partïon
Enghreifftiau: Trefniadau rheoli a monitro contractau gyda thrydydd partïon]

**Mesurau diogelwch:**
[Enghreifftiau: Amgryptio
Enghreifftiau: Trefniadau o ran: hysbysiadau tor diogelwch data]

**Mecanweithiau i ddiogelu data personol:**
[Enghreifftiau: Dad-adnabod data
Enghreifftiau: Trefniadau ar gyfer dinistrio data Enghreifftiau: Copi wrth gefn o ddata/trefniadau adfer ar ôl trychineb]

**Mecanweithiau i ddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth:**
[Enghreifftiau: Cynnal cofnodion fel cydsyniad, hysbysiadau preifatrwydd, mapiau llif data, cymeradwyaethau.]

## 12. Ansawdd Data

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data mae'n bwysig sicrhau bod setiau data yn gynhwysfawr, yn gyflawn, yn ddiduedd ac yn gywir. Dylid rhoi trefniadau ar waith ar gyfer adolygu setiau data yn rheolaidd a diweddaru gwybodaeth.

**Asesu ansawdd:**
[Dylid gwirio bod setiau data yn gynhwysfawr, yn gyflawn, yn ddiduedd, ac yn gywir. Dylid cydbwyso â'r angen i leihau data.]

**Trefniadau adolygu:**
[Trefniadau i adolygu'r setiau data ac i gadw gwybodaeth yn gyfredol ac yn gywir.]

## 13. Cadw a Gwaredu

Yn yr adran hon ystyriwch faterion sy'n gysylltiedig â sut y caiff data ei storio a'i ddal, y cyfnod o amser y caiff ei gadw a sut y caiff ei ddileu. Y meysydd penodol i'w hystyried yw:

- Cyfnodau cadw.
- Trefniadau ar gyfer archifo a chopïau wrth gefn.
- Adfer ar ôl trychineb a threfniadau parhad busnes.
- Dadgomisiynu systemau.

**Cyfnodau cadw:**
[Nodwch am ba hyd y bydd y gwahanol fathau o ddata yn cael eu storio.]

**Archifo:**

**Copi wrth gefn:**

**Parhad busnes:**

**Datgomisiynu systemau:**
[Nodwch unrhyw systemau sydd angen eu datgomisiynu. Dylid ystyried materion cysylltiedig fel mudo data a dileu data yn ddiogel.]

## 14. Trefniadau Arbennig ar gyfer Unigolion sy'n Agored i Niwed

Yn yr adran hon ystyriwch a oes angen unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth am y pwnc hwn yn cael ei wasgaru drwy'r AEDD ond mae'n ddefnyddiol dod â'r holl wybodaeth ynghyd mewn un adran i ganiatáu golwg gyfannol ar y trefniadau cyffredinol.

**Categori o unigolion sy'n agored i niwed:**
[Edrychwch am enghreifftiau o anghydbwysedd pŵer rhwng y rheolydd data a gwrthrych y data a nodwch y mathau o unigolion dan sylw lle mae hyn yn bodoli.]

**Y trefniadau arbennig sydd eu hangen:**
[Pa drefniadau, os o gwbl, sydd eu hangen? Gallai enghreifftiau gynnwys trefniadau arbennig ar gyfer cydsyniad, neu addasiadau i hysbysiadau preifatrwydd.]

## 15. Camau Gweithredu

Bwriad yr adran hon yw dwyn ynghyd yr holl gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gweithredu'r camau lliniaru risg a nodwyd. Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cwblhau, dylid dyrannu pob cam gweithredu i berchennog penodol gyda dyddiad gwneud y dyraniad a dyddiad cwblhau arfaethedig.

| Camau Gweithredu Angenrheidiol | Perchennog | Dyddiad a nodwyd | Dyddiad i'w gwblhau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 16. Penderfyniad

Mae'r adran hon yn cofnodi'r penderfyniad terfynol a gymerwyd mewn perthynas â'r AEDD. Dylai hwn gael ei gwblhau gan unigolyn (unigolion) sydd ag awdurdod cyffredinol digonol fel y pennaeth preifatrwydd, uwch gyfreithiwr neu swyddog cydymffurfio a/neu bennaeth uned fusnes y Fenter. Gall y rheolydd data benderfynu:

- bwrw ymlaen â'r Fenter ar sail canfyddiadau'r AEDD;
- peidio â bwrw ymlaen â'r Fenter; neu
- ceisio cymeradwyaeth gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth cyn bwrw ymlaen â'r Fenter.

**Penderfyniad:**
[Bwrw ymlaen â'r Fenter/Peidio â bwrw ymlaen â'r Fenter/Ceisio cymeradwyaeth gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth/Arall]

**Rhesymeg:**
Cyngor SDD wedi’i dderbyn neu ei wrthod (ac os caiff ei wrthod, y rhesymau dros hyn):
Person awdurdodedig:

## Atodiad A:
## Dogfennau Perthnasol

## Atodiad B:
## Map(iau) Llif Data

## Atodiad C:
## Hysbysiad(au) Preifatrwydd

## Atodiad D:
## Cyngor Swyddog Diogelu Data

## Atodiad E:
## Dogfennau sy'n benodol i wlad/gwledydd

## Atodiad F:
## Arall (e.e. gohebiaeth gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**